Y Rhybuddiwr Christnogawl,

Yn cynnwys

ANNOGAETH DDIFRIFOL I FUCHEDD SANCTAIDD.

Gyda rhai HYFFORDDIADAU *tuag-at yr unrhyw.*

Wedi ei hysgrifennu mewn ffordd eglur a hawdd, i bôb mâth ar Bobl.

Dilynwch Heddwch â phawb, a Sancteiddrwydd, heb yr hwn ni chaiff nêb weled yr Arglwydd. Heb. 12. 14.

Wedi ei gyfieithu allan o'r ddeuddegfed Argraphiad yn y Saisonaeg.



Art
5°C.785

Printiedig yn *Rhydychen* yn y *Flwyddyn.* 1689.

Jo. Rawlet

Att y Cymro Uniaith.

Y Bryttwn natturiol!

VVEle fi'n dyfod yn daer ymbiliwr attat am gael un rhodd gennit; y peth yr wyf yn ei erfyn arnat fydd gymmwynas, nid i mi, eithr i ti dy hûn; ſef, Bôd yn wiw gennit yn yſtyriol, ac yn ddifrifol ddarllain y Llyfr bychan hwn unwaith drwyddo: Er nas gwnei ar fy nymuniad i, ſe dybygid, (os oes dim gweddeidd dra ynot) mai bychan i ti wneuthur hynny o ran parch a diolchgarwch i'r anrhydeddus eluſengar Fenyw a'th anrhegodd di ag e; gan gyrchu Sais o Loegr i'th gynghori yn iaith dy fam; Ac oni ddichon hyn oll dy annog; etto darllain ef er mwyn dy Enaid gwerthfawr dy hûn, ac os gweithia yr Athrawiaeth gynnwyſedig ynddo ar dy galon di, megis ag y gwnaeth ar arall, 'r wy'n coelio y bydd diedifar gennit: Os cyfarfyddi hefyd ymma, a'r cwbl ſydd angenrhaid i ti er Iechydwriaeth, wedi ei grynhoi yn fyrrach ac yn rhattach nag y gwelaiſt o'r blaen, dyro i Dduw y gogoniant, a gâd i ni yn ddïoed ac yn ddïanwadal ymroi yn unfryd (drwy gynnorthwy grâs Duw) i arwain *Buchedd Sanctaidd* er anrhaethol ac annherfynol gyſſur i ni. Bŷdd iâch.

Y Cymreigydd.

Cerdd y Cymreigydd, at y Darllennydd.

WEle drael, Gwraig hael, goreu caid (o lês)
Eluſen, a chyfraid,
Cymmorth yw'r ymborth, a'i raid,
I roi annerch, i'r enaid.

Meddyg nid rhyfyg ond rhaid ei berchi?
Byw orchwyl anghenrhaid, } *Goreu Meddyg*
Goreu Meddyg (o plŷg plaidd) } *Meddyg enaid.*
Môdd gynnes) Meddyg enaid.

Rhybudd yn Ddiharebawl; rhai y bŷdd,
Rhybuddiwr Chriſtnogawl,
I ddefod buchedd Ddwyfawl,
Rhadau Duw, rhag rhwydau Diawl

Cynghorion rhwyddion, yn rhoddi cyffur,
Ceiſio dy hyfforddi;
Er d'annog i'r daioni.
Rhoi budd têg, Rhybudd i ti.

Dyſg rŵydd i ddedŵydd a ddodwch a gair,
I gyraedd hyfrydwch. } *Ni thyccia*
Ni thyccia (cyfa cofiwch,) } *rhybudd i drwch*
Rhoi bûdd draw) Rhybudd i drwch

Lleſg ofid, llâs a gafodd, (Oer obaith)
Rybudd, a wrthododd: } *Llas a gafas rybudd*
Ac ni lâs (at râs y trôdd, } *Ni las a'i cymerodd.*
Ca'am wîr) a i cymmerodd.)

Y Rhybuddiwr Chriſtnogawl, &c.

PEN. I.

Annogaeth i Fuchedd Dduwiol, *gyda Chynnhyrfiadau at yr unrhyw.*

MAe'n reſynol iawn yſtyried, nid yn unig leied o genedlaethau fydd yn y byd yn proffeſſu Chriſtnogeiddrwydd, ond hefyd o'r rhai a'i proffeſſant, anamled yw 'r rhai ſydd yn cyffelybol fucheddu yn ôl eu proffeis. Gan hynny fe weddai yn dda i ffyddlon wasanaethwyr Chriſt, yn enwedig Gweinidogion ei Efengyl ef, arferu eithaf eu gallu, drwy fuchedd ac Athrawiaeth, drwy gyhoedd a dirgel annogaethau, drwy bregethu ac ysgrifennu, a thrwy bob ffordd ag y medrant, ddyrchafu gwîr ddduwioldeb a Sancteiddrwydd ymmyſg pôb mâth a'r ddynion, pa un bynnag ai uchel ai iſel, cyfoethogion ai tlodion, heb pa un ni ddichon neb fôd yn ddedwydd, naill ai'n y bŷd hwn, ai 'r hwn ſydd i ddyfod. Ac er y gwn i'n dda, i Dduw y bô 'r diolch, fôd gennym amlder o lyfrau rhagorol a 'ſgrifennwyd i'r diben hwn; etto nid yw'r cyfryw hyfforddiadau byrrion a'r rhai'n ſy'n canlyn i'w heuog farnu megis yn ddiddefnydd, oblegid, mae'n debygol, y tenir hwynt yn ſŵy cyffredinol, a hynny ymmhlith y rhai gwaelaf o'r bobl, ac y gellir yn haws eu darllain a'u cofio gan y rhai nid oes ganddynt nag amſer i ddarllain llyfrau mawrion, nag arian i'w prynnu. A'r cyfryw rai y mae i mi achos yn fynych i gyfarfod, ac er eu mŵyn hwynt yn bennaf yr ŵyf yn cyhoeddi y pappur bychan hwn; wedi cael fy nghefnogi i wneuthur felly gan rai gwŷr Duwiol. Dinaſaidd a gwladaidd, y rhai ſy'n bwriadu rhoi rhai o honynt i dlodion o'u hamgylch, ac a feddyliaſant y gallai eraill wneuthur y cyffelyb. A rhynged bodd i Dduw roddi bendith i'r cyfryw antu-

riaeth wael a hon, a'i llwyddo er daioni eneidiau, Ni wnaf i fawr gyfrif o farn y Rhodreſgar; gan gofio dywediad o'r eiddo 'ngrifennydd duwiol y cyfarfûm i yn rhyw fan ag ê, yn tueddu at y perwŷl hwn; ſef, y chwennychai fôd ei lyfrau wedi eu tanu ar lêd ym marchnadfa pedleriaid, ac oddiyno dyfod i ddwylo y bobl gyffredin, er 'chwanegu gwybodaeth a duwioldeb, yn hyttrach na'i cynnefinol roi i fynu a'u cuddio yn llyfrdai y rhai dyſgedig.

Gan hynny heb ddim vchwaneg o Ragymadrodd, mi a'm cyfeiriaf ty hunan attoch chwi y rhai yr ŵyf yn yſgrifennu y liniau hyn er eich mŵyn, megis annogaeth i ſanctaidd a chreſyddol fywyd. Yn awr yn gyfattebol at hynny, gadewch i mi erfyn arnoch edrych yn ól ar eich buchedd a aeth heibio, a'ch galw eich hunain i gyfrif, A tu eich gofal a'ch aſtudrwydd chwi ar fyw yn y cyfryw fodd Duwiol ag y gweddai i rai a 'fedyddiwyd i enw Chriſt, ac yn ei ôl ef a elwir yn Griſtnogion A ddarfu i chwi yſtyried yn dda beth yw fynnied yr Enw hwn, a pha rwymedigaeth i fuchedd ſanctaidd yr ydych chwi'n gorwedd dani wrth ei gymmeryd arnoch yn eich Bedydd? Ac vdych chwi 'n cofio 'n dda eich Addunedau yn eich bedydd, ym mha un yr ymwrthodaſoch a Diafol, y Bŷd a'r Cnawd, ac yr addawſoch ſôd yn filwŷr ffyddlon ac yn waſnaethwŷr i Griſt, a pharhâu felly holl ddyddiau eich bywyd? A ddarfu i chwi ddeall ac yſtyr y 'pethau hyn cyn belled, a gwneuthur o honoch yn orchwyl pennaf i chwi rodio yn ôl yr unrhyw? a ydych chwi 'n gwilied yn ofalus ac yn ymladd yn wrol yn erbyn eich gelynion yſprydol? a ydych chwi 'n byw megis rhai yn credu'r Efengyl, gan wneuthur eich gorau yn ddiragrith ym mhôb dim i wybod ewyllys Duw a'i wneuthur? Gan eich bôd chwi 'n henwi enw Chriſt, a ydych chwi 'n ofalus ar ymadel a phôb anghyfiawnder? Mewn gair, ai eich aſtudrwydd a'ch arfaeth fwyaf chwi yw bodloni a gogoneddu Duw, a gweithio allan eich iechydwriaeth eich hunain? O's gall eich Cydwybod dyſtiolaethu gyda chwi mewn gwirionedd fôd y peth yn ddiau felly; ac yn yr hyn yr ydych un amſer yn fyrr neu'n gwneuthur ar fai, fôd yn ddrwg gan eich calonnau, a'ch bôd beunydd yn ymegnio i wellhâu: O's fel hyny mae gyda chwi; meddaf, yna bendithiwch Duw am ei râs a'i

drugaredd.

drugaredd, ewch rhagoch a llwyddwch, ac nac ofnwch na bŷdd Duw gyda chwi, efe a'ch cymmer chwi megis ei blant, ac er mŵyn ei fab Jeſu, efe a faddeua eich pechodau ac a'ch cynnorthwya chwi a'i ras; fe a'ch cyfarwydda chwi a'i gyngor, ac yn y diwedd a'ch derbyn i'w ogoniant.

Ond attolwg gwnewch ffyddlondeb a'ch Eneidiau eich hunain a mynegwch i mi, Ond ffordd arall yn hollawl y bu gyda chwy-chwi? Oni ſodlonaſoch chwi eich hunain a'r enw noeth a'r broffes o Griſtnogaeth, ac yn y cyfamſer arwain helynt buchedd ddrygionus, yn union yngwrthwyneb i'ch proffes? Oni ddarfu i chwi fŷw mewn anwybodaeth gwirfodd o'ch dyledſwydd, neu mewn pechodau tramawr yn erbyn eich gwybodaeth? Onid ydyw profedigaethau Diafol, hudoliaethau y Bŷd a'r Cnawd lawer o amſerau yn eich gorfod yn hyttrach na gorchymmynion yr holl alluog Dduw a llais eich Cydwybod eich hunain? Ond ydych chwi 'n gynnefin o eſceuluſo addoliad a gwaſanaeth Dduw, yn yr Eglwys a chartref? ïe, onid ydych chwi yn halogi ei Enw ſanctaidd ef drwy dyngu a rhegu? Onid ydych chwi'n fynych yn euog o gelwydd ac enllib, o dŵyll a ſommedigaeth, ac fe allai o ledrad uniawngyrch? Onid iaith arferedig i chwi yn eich digter yw cablu a difenwi? neu onid ydych chwi'n bŷw mewn cenfigen a bwriad drwg, gan geiſio dial ar y rhai a wnaethant ddim cam a chwychwi? Onid ydych chwi yn eich cynwys eich hunain mewn meddwdod a phutteindra, neu mewn rhŷw bechod gwybyddus a gwirfodd arall? I fôd yn fyr, onid oes rhyw beth neu ei gilydd yn y bŷd yr ydych chwi'n ei garu yn fŵy na Duw ei hûn a'i fâb Jeſu? Onid ydych chwi yn darbod dros eich Cyrph yn fŵy o lawer na thros eich Eneidiau gwerthfawr? Ac onid ydych chwi yn ymgais yn ddifrifach am ymborth a dillad, a phethau da y bywyd hwn, nag am y dragwyddol deyrnas o ogoniant a addawodd Dduw i'w waſanaethddynion ffyddlon yn y bŷd a ddaw?

Os fel hyn yn ddiau y mae eich cyflwr, ſefwch attolwg, ac yſtyriwch yn dda beth y buoch yn ei wneuthur; pa gyflwr greſſynol a pheryglus y dygaſoch chwi eich hunain iddo, a pha beth a fŷdd ei ddiwedd os deliwch chwi rhagoch yn y cyfryw helyntiau drygionus. Ufudd-ymbiliwch a Duw ar iddo eich gwneuthur chwi beunydd yn deimladwy o'ch pechod a'ch perygl, a chadw o honaw ef y deimledigaeth honno mor dynn at eich meddyliau, fel y dyc-

cer chwi nid yn unig i alaru am eich pechodau, ond i'w cashâu a'u ffieiddio, ac yn hollawl i ymwrthod a'r unrhyw, gan ymroi o hyn allan drwy ras Duw i'ch rhoddi eich hunain yn gwbl i'w waſanaeth ef, ac i rodio yn ddiyſgog yn y ſanctaidd a'r daionus lwybrau a oſſododd efe i chwi. I hyn yr ydwyf yn dradifrifol yn chwennych eich ymannog chwi. Ac fel y gwnelwyf fy eithaf ar dyccio, mi a oſſodaf o'ch blaen chwi rai Reſymmau pwyſawr, y rhai yr ŵyt yn erfyn arnoch eu difrifol yſtyried yn eich calonnau wrth eu darllain, a Duw a ganniattao iddynt gael gwir waith ar galon pob darllennydd. *Amen.*

(1.) Fel y ffynno eich ennill chwi i fôd yn waſanaethddynion ffyddlon i Dduw, yſtyriwch, yngynta, *Mai hwn oedd y diben mawr er mwyn pa un y gwnaeth Duw chwi, ac y mae eſe yn eich cadw chwi yn fyw, ac yn rhoddi i chwi gynnifer o bôb màth ar fendithion.* Chwi a tedrwch ddywedyd, 'r wyf yn gobeithio, Mai Duw a'ch gwnaeth chwi, ac iddo eich gwneuthur i'w waſanaethu ef, gan fyw yn ôl ei orchymmynion. Hyn yw un o'r pethau cyntaf y mae plant yn ei ddyſgu, a da fyddai pan gynnyddont i fôd yn wŷr ac yn wragedd, pe ymarferent yn ddifrifol o'i gofio, ac o wneuthur ar ei ôl. Y Duw doeth a wnaeth bôb creadur i ryw ddiben da neu ei gilydd, ac a'u cymhwyſodd hwynt ôll i'r dibenion a'r amcanion hynny er mwyn pa rai y gwnaeth efe hwynt. I ddŷn gan hynny y rhoddes efe Reſwm, yn bennaf i'w gymhwyſo ef at greſydd, ac i'w gyfaddaſu ef i adnabod, i garu ac i waſanaethu ei Greawdr mawr a'i Nodded: A Chreſydd yw'r peth ſydd yn gwneuthur y rhagor mawr rhwng Dŷn ac Anifail: oblegid nid oes gan Greaduriaid direſwm wybodaeth o Dduw, na pharch iddo, ond a arweinir yn hollawl gan eu hannian, ac ni teddyliant am ddim arall ond y peth ſydd o'u blaen yn y bŷd hwn. Ond y dŷn tlottaf ar y ddaiar yr hwn y mae rheſwm ganddo, ſydd a charennydd agos rhyngtho a'r Angylion eu hunain; ei nattur ſydd geffelyb i'r eiddynt hŵy, ac nid yw ond ychydig îs na hwynt, fel y galler mawr dderchafel ei feddwl ef yn yr ûn gorchwylion ſanctaidd ag y maent hwythau yn gweini ynddynt, ſef yn caru ac yn moli, ac yn addoli y Duw mawr daionus. I'r diben ymma et a ddichon aſtudio gweithredoedd Duw a'i air, y rhai a'i datcuddia ef i ni, ac a ddylai 'n oeſtadol ein coffhâu ni am dano.

A'r

A'r holl bethau da yr ydym ni yn eu mwynhâu a ddylent yn oeſtad beri i ni ſynnied daioni Duw oddiwrth ba ûn y maent yn deilliaw: a llenwi ein calonnau ni o gariad a diolchgarwch, a'n geneuau a bendith a mawl. Dymma'r defnydd mwya cyfaddas o'n rheſwm ni, a hyn y mae Duw yn gyfiawnaf yn ei ddiſgwil oddiwrthym ni greaduriaid rheſymmol; a hyn a ddichon y tlawd ei draddodi heb ddim rhwyſtr i'w lafur beunyddiol; ac a all gadw y cyfryw ſynniad arſwydus oDduw ar ei feddwl ef ag a ddichon ei attal ef oddiwrth bechod gwirfodd, a'i wneuthur ef yn oeſtad yn ofalus i fodloni ei wneuthurwr. Ac felly ein rheſwm a roddwyd i ni i ffrwyno ac i lywodraethu ein chwantau, ein hyſfa a'n Gwyniau; fel na'n harweinier ymaith i lothineb a meddwdod, i anlladrwydd ac aflendid, nac i ffromder a llidiogrwydd megis Anifeiliaid yſgrublaidd y rhai ſydd heb ddeall ganthynt: ond bôd i ni fyw 'n ſobr ac yn ddiwair, yn dangnheddyfus ac yn heddychol a phob dŷn; gan wneuthur iddynt bob daioni a allom. Er mwyn y cyfryw ddibennion ſanctaidd a'r rhai'n yn bennaf y rhoddwyd ein Rheſwm i ni, ac fel hyn gan hynny y dylid ei ddefnyddio. Yn ſiccr gan i Dduw ein gwneuthur ni o naturiaeth fŵy rhagorol nag adar ac anifeiliaid, mae efe 'n diſgwil oddiwrthym amgen gorchwylion a gwaſanaeth nag oddiwrthynt hŵy. Ni wyddant hŵy ddim o Dduw a'u gwnaeth, nac oes ganthynt hwy ddim gwybodaeth o fywyd arall ar ôl hwn, ond pan fyddont feirw dyna ben am danynt. Ond i ni y rhoddes Duw Eneidiau anfarwol gwerthfawroccach na'r holl fŷd: ac er mŵyn y diben hwn y creodd efe ni, fel y byddai i ni ei waſanaethu a'i anrhydeddu ef yma yn y bywyd hwn, ac felly cael byw gydag ef, a'i fwynhau 'n dragywydd yn y bŷd ſydd i ddyfod.

Yn awr os dyma ddiben ein creadigaeth ni, oni ddylem ni fyw i ſynu atto? Oni welwn ni bob peth arall yn atteb i'r diben y gwnaethpwyd hwynt o'i blegid? Yr haul yn rhoddi goleuni y dŷdd, a'r lleuad y nôs. Y ddaiar yn dŵyn ŷd a gwellt, a'r prennau yn dŵyn ffrŵyth. Y march, y fuwch a'r ddafad, gyda llawer o Greaduriaid eraill, yn edfryd i ni waſanaeth a bûdd lawer. Ac a gaiff dŷn yn unig fod yn annefnyddiol ac yn anfirwythlon, heb fyw i un perwyl da? Pan ydynt hwy ôll cyn barotted i'n gwaſanaethu ni, oni chawn ninnau yn gyffurus ei waſanaethu ef yr hwn a'n gwnaeth ni i'w waſanaeth ei hûn? Yn ſiccr nid allwn ni

dybied

dybied ddarfod i'r Duw doeth ein danfon ni i'r bŷd yn unig i ſwytta ac i yfed, i gyſgu ac i chwareu, neu i weithio'n galed am ſywiolaeth dlawd. Pe hyn fuaſai'r cwbl, gwell a fuaſai i ni fod wedi ein gwneuthur yn greaduriaid direſwm, neu na'n gwnelſid fŷth. Llai o lawer y gallwn ni dybio wneuthur o'r Duw ſanctaidd ni yn un-tŵydd i bechu yn ei erbyn, i ddianrhydeddu ei enw, a'i gyffroi i ddigofaint. Nid i'n gwneuthur yn gall ac yn gyfrwys at y bŷd y rhoes efe reſwm i ni, fel y gwypem pa fodd i dwyllo ac i ſommi ein cymmydogion. Ni roddes efe dafodau i ni i dyngu a rhegu a hwyrt, neu i ſiarad ynſydrwydd a ſerthedd; gadewch i ni gan hynny na arferom mo'nynt i'r cyfryw ddrwg ddibennion. Gan roi o Dduw i ni Eneidiau gwerthfawr anfarwol, gadewch i ni na bŏm bŷw megis anifeiliaid addifethir, gan ymdrobeddu yn nhom tracwant brwnt annianol a diyrrwch. Fel hyn yr ydym ni yn mynd yn waeth na'r anifeiliaid eu hunain, canys yr ydym ni yn diyſtyru ein natturiaeth ein hunain, yr ydym yn dirmygu ein rheſwm er cywilydd a niwed i ni ein hunain, ac er anfodlondeb i Dduw. Fel hyn yr ŷm ni yn croeſi diben ein Creadigaeth, ac yn hurtach ac yn anniolchgarach na'r ŷch neu 'r aſſyn: canys hwy *a adwaenant ei meddiannudd*, ac a wnânt waſanaeth da i'r rhai a'i cadwant ac a'i porthant, *Eſai* 1. 2, 3. O! gadewch i ni na rothom achos i Dduw i achwyn arnom, fel y mae efe yno ar yr Iddewon, *iddo fagu a meithrin meibion a gwrthryfelu o honynt i'w erbyn*: Cofiwch mor ofidus ydyw i chwi y rhai y mae plant gennych, wedi eich hôll ofal a'ch caredigrwydd, wedi eich hôll drael a'ch llafur, eu cael yn gyndyn ac yn anufudd, yn anliywodraethys ac yn Afradwyr ſegurllyd. O! edrychwch gan hynny na bo i chwi fôd yn gyfryw tuag-at eich Tâd nefol, yr hwn a'ch gwnaeth ac ſydd yn eich cadw, ac ſydd beunydd yn adnewyddu ei drugareddau tuag-attoch. Efe ſydd yn ein cadw ni 'n fŷw ac yn gwneuthur ein heiniocs ni yn gyſſurus. Efe ſydd yn rhoi ac yn cynnal i ni ein Rheſwm a'n ſynhwyrau, ein hiechyd a'n cryfder, ymborth a dillad, a'r holl bethau da yr ŷm ni yn eu mwynhâu. Efe ſy'n cyflowni ein deſygion, ac yn ein cynnorthwyo yn ein holl gyfyngderau. Mae efe yn rhoi i ni oleuni'r dydd, ac eſmwythdra'r nôs Mae efe yn rhoddi i ni allu i ddilyn ein galwedigaethau, ac yn rhoi bendith ar ein llafur ni, fel y gallom ddarparu i ni ein hunain a'n teuluoedd. Ac onid ydyw y Duw daionus

hwn

hwn yn haeddu yn dda yr holl gariad a'r gwaſanaeth a fyddo poſſibl i ni ei draddodi iddo ef? O pa fodd y clown ni ar ein calonnau ei anfoddhâu ef o'n gwirfodd, yr hwn ſydd fel hyn yn ymddigrifo yn gwneuthur i ni ddaioni! Ys trueiniaid ynfyd ac anniolchgar ydym dalu'r pwyth mor ddrwg a hyn am holl dirion drugareddau 'r Arglwydd. Nid allem ni wneuthur felly ag ûn Cyfaill na chymmydog ar y ddaiar, a fuaſai yn oeſtad yn addfwyn ac yn garedig wrthym. Onid yw gweiſion yn rhwym i weithio i'r rhai a'u cadwant ac a dalant gyflogau iddynt? Ac oni ddylai plant ufuddhâu i'w Rhieni y rhai a'u cenhedlaſant ac a'u dygaſant i fynu? Pa faint mŵy gan hynny y dylem ni ufuddhau i Dduw ein Tad, yr hwn yngyntaf a roes fywyd i ni, ac ſydd yn oeſtad o ddŷdd bwygilydd yn ei hwyhau, pan allai eſe mewn moment ein torri ymaith yn ein pechodau, a'n taflu i uffern. Ond mewn mawr drugaredd y mae eſe yn ein heiriach, ac yn rhoddi i ni adeg i edifarhâu, ac anewyllyſgar iawn ydyw i'n deſtrywio ni, ac o herwydd hynny mae'n hir-ddiſgwil i fôd yn raſuſol i ni. O! gan hynny bydded i'w hîr-ymaros a'i holl ddaioni ef o'r diwedd gael y gweithrediad dedwyddol hwn arnom; gadewch iddo ein tywŷs i wîr edifeirwch, ac bŷth o hyn allan ein rhwymo ni i ddiwŷdrwydd a dianwadalwch yn ei watanaeth. *Rhuf.* 2.4. 2 *Pet.* 3.9.

(2.) I'r perwyl hwn yſtyriwch drachefn mai *dymma'r diben, er mwyn pa ûn yr anfonodd Duw ei fab Jeſu i'r byd,* ſet i'n ceiſio ac i'n cadw ni bechaduriaid truain cyfrgolledig, i'n dŵyn i edifeirwch a newydd-deb buchedd, fel felly i'n hadferid i ffafr a chariad Duw, y rhai a gollaſem ni drwy bechu yn ei erbyn ef. Ein Rhieni cyntaf ni Adda ac Efa a grëwyd mewn tra-ſanctaidd a dedwyddol gyflwr, ond hwy a gwympaſant drwy bechu yn erbyn Duw, ac felly y daeth pôb trueni i'r bŷd. Ac yna y cymmerth ein Tad nefol doſturi arnom, ac a anfonodd ei fâb o'i fynwes i fôd yn Iachawdwr ac yn Bryniawdwr i ni, i'n hadgyweirio ni o'n *pechodau*, ac felly i'n gwared oddiwrth *drueni*: Yngyntaf fe a'n gwna ni *'n Sanctaidd*, ac yno i'n gwneir *yn Ddedwyddol.* Canys fel y darfu i ddŷn golli ei ddedwyddwch drwy anufuddhâu gorchymmyn Duw, felly rhaid iddo ei ail-ynnill drwy fôd yn ufudd i'w ewyllys ef ym mhôb dim. I'r diben hwn y cyflawn-ddatcuddiodd yr Arglwydd Jeſu feddwl ac ewyllys Duw i ni pan oeddym mewn anwybodaeth a thywyllwch. Fe a roes i ni athrawiaethau ſanctaidd i reoli ein bywyd: Ac a wnaeth dra goludog a gwerthfawr addewi-

dion i ni i'n hannog i'n dyledſwyddau, ac a gyhoeddodd fygythion ofnadwy i'n dychrynnu ni o'n drygioni.

A phan oeddym yn haeddu digofaint Duw am ein pechodau, yna y tywalltodd Jeſu Griſt ei werthfawroccaf Waed i wneuthur cymmod droſom, ac i ennill i ni bardwn a maddeuant. *Efe a ſu farw dros ein pechodau, ac a gyſodwyd i'n cyfiawnhau.* Rhuf. 4. 25. Ac yn ei Efengyl a roes lawn ſicrwydd o ewyllys da Duw tuagat ddynol rŷw, y bydd efe trugarog wrthym ac y maddeuai efe i ni, os gwir-edifarhawn ni am ein pechodau ac ymwrthod a hwynt. Fel hyn yr agorodd Chriſt ddrŵs gobaith i ni, i roi calonnau ynom i ddychwel at Dduw: Canys pe na buaſai obaith o drugaredd, ni'n tynnelid bŷth i Edifeirwch, ond megis y Cythreuliaid eu hunain yr aroſaſem yn llawn câs a digaſedd yn erbyn Duw, gan anobeithio yn hollawl am ymwared oddiwrtho. Ond tra bo marwolaeth Chriſt yn rhoi cymmaint rhwymedigaeth a chalon ynom i *ymwrthod* a'n pechodau, nid ydyw yn rhoi i ni yr achlyſur lleia i *barhau* ynddynt. Na thybiwn *farw* o Griſt dros ein pechodau fel y caëm rydd-did i fŷw ynddynt, ac etto bod yn gadwedig yn y diwedd. Na ddô, eithr efe a ddaeth i'n gwared ni oddiwrth ein pechodau, ac nid *ynddynt*. Mae efe yn ein bendithio gan ein troi oddiwrth ein hanwireddau. Efe a fu farw i'n hachub ni oddiwrth ofer a drwg ymarweddiad, i buro ein calonnau, ac i adgyweirio ein Bucheddau, *a'n gwneuthur yn bobl briodol iddo ei hûn, awyddus i weithredoedd da,* Mat. 1. 21. Act. 3. 26. Tit. 2. 14. 1. Pet. 1. 18.

Marwolaeth Chriſt droſom ni bechaduriaid ſſiaidd ſy'n dangos annherfynol gariad Duw yn cael allan y ffordd hon er ein hiechydwriaeth: Ond yna mae'n dangos hefyd pa ddrygbeth yw pechod, ac mor gâs gan Dduw, gan na roddai ef faddeuant i ni heb ddioddef o'i anwyl Fab ei hûn o'n hachos ni. A chan hynny oni ddŵg yr yſtyriaeth o hyn ei gŷd nyni i gaſhâu ac i ffieiddio ein pechodau, ac i garu ac i waſanaethu ein Duw a'n Hiachawdwr, nid ydym ni fŷth debyg i gael dim llês o farwolaeth Chriſt. Ein holl broffes ni o'i garu ef a chredu ynddo a ſai yn ddiddim i ni heb ufuddhâu iddo ef. Gwîr ffydd gadwedigol yng-Nghriſt yw yr hon *ſy'n gweithio drwy gariad* i Dduw ac i'n cymmydog. Nid yw Chriſt yn cyfrif nêb yn gyfeillion iddo ef ond y rhai a gadwant ei orchymmynion, ac i'r cyfryw rai yn unig y caniattâ efe faddeuant ac iechydwriaeth. *Gal.* 5. 6. *Joan* 15. 14. *Heb.* 5. 9. 1 *Joan* 3. 8.

Gan ddyfod gan hynny o'r tragywyddol fendigedig Jeſu

mab

mab Duw i lawr o'r nefoedd, a chymmeryd o hono ddyn-oliaeth arno, a marw marwolaeth dra phoenedig ar y Groes, fel i'n gwaredai oddiwrth bechod a thrueni, Oni chymmerwn ni ei yn Arglwydd ac yn Iachawdwr, yr hwn fydd yn dyfod i'n gwared ni oddiwrth allu diafol a'n trachwantau ein hunain, 'n gwneuthur ni yn Blant i Dduw ac yn Etifeddion Gogoniant. yr hyn fydd filo weithiau yn fwy ymwared na'r hwn a gâs *yr Iſraeliaid o* gaethiwed *yr Aipht*. Oni chynhyrfir chwi gan yr hyn ôll a wnaeth ac a ddioddefodd Christ drosoch? Oni chaiff ei gariad ef eich cymmell chwi i'w garu yntau, ac i gashâu pôb pechod yr hyn a fu achos o'i ddioddefaint ef? A fetrwch chwi dan draed ei werthfawroccaf Waed ef, a'i groeshoelio ef drachefn, a'i roddi i wradwydd cyhoeddus? Fel hyn mewn rhyw fodd y mae Dynion drygionus yn arfer o wneuthur a'u Hiachawdwr, tra'r elont ymmlaen yn eu pechodau y rhai ydynt mor anfodlonol iddo. Y rhai a ddywedant gelwydd ac a gwyllant er mwyn ycnydig elw, Berh y maent yn ei wneuthur ond megis Judas gwerthu ymmaith Grist er arian. Y rhai fydd yn byw mewn cas a digasedd, ac a wnânt ddrwg i'w Cymmydogion, maent mewn effaith yn gwanu ystlys Christ a gwaywffon, ac yn gyrru Hoelion i'w ddwylo a'i draed ef. A'r rhai a ymroant i drythyllwch a meddwdod, maent yn cymyſcu Bustl a Finegr iddo ef i'w yfed. Maent yn gwneuthur y cwbl ôll hyd y mae ynthynt drwy eu difyrwch pechadurus ar ei roddi ef drachefn i Ing a Phoendod Ond ar y llaw arall, mae'n hyfrydwch gan yr Arglwydd ein gweled yn ymddaroſtwng am ein pechodau, ac yn ymroi i ymwrthod a hwynt. Efe a fydd yn barod iawn i gyfryngu troſom ac a'i gwna yn effeithiol ddigon gyda 'n Tad nefol, yr hwn fydd dra ewyllysgar i dderbyn Atradlonwŷr dychweledig. Mae llawenydd yn y Nef pan edifarhao pechaduriaid ar y Ddaiar. Iê ein dychweliad hyn at Dduw drwy wîr edifeirwch yw'r gobrwy goreu a allwn ni ei wneuthur i'n Hiachawdwr bendigedig am ei holl boen a'i ddioddefaint. *Pan lwyddo ewyllys yr Arglwydd yn ei law* drwy ddychweliad pechaduriaid, *o lafur ei enaid y gwêl ac y diwellir*, Eſay 53. 10, 11. Ac oni chawn ni adroi y bodlonrwydd hwn i'n Prynnwr, yr hwn a ddug arno gymmaint er ein mwyn, ac fydd yn oeſtad o'i dyner gariad i'n heneidiau yn ein dalyn a'r cyfryw ddifrifol wahoddiadau i ddyfod attto am fywyd a dedwyddwch? A allem ni ei naccâu ef o'r dymuniad tra rheſymmol hwn, pe gwelem ni ef yr awr hôn yn ſefyll o'n blaen yn berſonol, gan ertyn arnom droi a

bŷw? A hyn y mae efe yn awr yn ei wneuthur drwy ei Yſpryd a thrwy ei Weinidogion. Ond hyn ſydd yn ſy arwain i at y neſaf.

(3.) Yſtyriwch gan hynny, mai *hwn hefyd oedd y diben er mwyn pa ûn y rhoddwyd yr Yſpryd glan, ac yr adferwyd holl foddion gras*, ſef i ſancteiddio ein calonnau ac i'n gwneuthur yn Bobl ſanctaidd ac ufudd. Duw a edwŷn wendid a llygredigaeth ein naturiaethau ni, gan hynny mewn mawr drugaredd mae efe yn caniattau i ni gymmorth ei lân Yſpryd, i oleuo ein meddyliau, ac i buro ein calonnau, i adnewyddu ac i newid ein naturiaethau ni, ac i'n hyſforddi ni yn llwybrau ſanctaiddrwydd ymma, fel felly i'n cymhwyſer i dragwyddol ddedwyddwch gyda'r Duw ſanctaiddiaf yn y bŷd a ddaw. *Joan* 3. 3, 5. *Rhuf.* 8. 9. Ac i'r diben hwn yr yſgrifennwyd yr Ygrythyrau ſanctaidd gan wŷr wedi eu cynhyrchio a'u hyſprydoliaethu gan yr Yſpryd glan, i fôd yn lluſern i'n traed ac yn llewyrch i'n llwybr, i'n cyfarwyddo ni yn y ffordd eglur i fywyd tragywyddol, 2 *Tim.* 3. 15, 16, 17. A'r ſanctaidd Sacramentau a drefnwyd er cynnydd grâs i'r rhai ôll a'u hiawn arferont. A'n Hiachawdr bendigedig ar y cynraf a anfonodd ar lêd ei Apoſtolion i Bregethu'r Efengyl i'r holl Fŷd, ac fŷth er y prŷd hynny a gynhaliodd ddilynniad parhâus o Weinidogion yn ei Eglwys, ſŷdd gwaſtadol pa rai yw gweinyddu y Gair a'r Sacramentau, gwiried dros Eneidiau y Bobl, eu haddyſgu a'u cynghori yn gyhoeddus ac yn ddirgel, ac arferu eithaf eu diwydrwydd i'w dŵyn hwynt i wybodaeth a chariad Duw, a'i Fâb Jeſu. A Duw ſydd yn oeſtad yn barod i fôd a'i fendith yn breſennol gyda eu llafur hwynt. Onid ydych chwi yn tyngcu yn deimladwy fod ei Yſpryd daionus ef yn rhoddi bwriadau a chynnhyrfiadau da yn eich meddyliau chwi, gan eich tueddu chwi at yr hyn ſydd ſanctaidd a da, a'ch ceryddu a'ch attal pan fôch yn rhedeg i ddrygioni? Ond ar y llaw arall yr Yſpryd drwg, ïe Diafol ei hûn, ſydd yn ceiſio gwall arnoch i bechu, ac a fynnai eich rhwyſtro oddiwrth eich dyledſwydd. Diafol ſydd yn denu Dynion i falchder a bwriad drwg ac i bob mâth ar ddrygioni. Canys gan ei fôd ef yn falch, yn falcheiſgar ac yn Yſpryd tra drygionus, fe fynnai i Ddynion fôd yn gyffelyb iddo ei hûn, fel felly y byddent mewn trueni tragywyddol gydag ef. Oni wrthwynebwch chwi gan hynny y Cythraul, gelyn mawr eich Eneidiau, a chymmeryd eich arwain a'ch hyfforddi gan Yſpryd daionus Duw, a dilyn ei gynnhyrfiadau a hyfforddiadau ei air et y rhai ſydd yn arwain i ddedwyddwch?

ddwch? O na thriſtewch ei yſpryd bendigedig ef, yr hwn yn unig a ddichon roddi i chwi wir ddiddanwch, na wrthwynebwch ac na ddiffoddwch ei gynnhyrfiadau, ac na chyffrowch efi ymado oddiwrthych, a'ch gadel i'ch trachwantau eich hunain, ac i allu Satan, yr hwn ſydd yn ceiſio eich diniſtrio.

Ymmhellach, megis ag y mae gan Ddiafol ei offerynnau i dynnu Dynion i ddrygioni, y naill Ddrwg weithredwr yn denu'r llall, felly Gweinidogion a anfonir oddiwrth Dduw i'ch ſynnu chwi i gyfiawnder a ſancteiddrwydd. Cennadon a negeſwŷr Chriſt ydynt, ac yn ei enw ef y maent yn erfyn arnoch gymmodi a Duw, yr hwn ſydd dra-ewyllyſgar i fôd yn gymmodlon a chwy-chwi, os gwnewch chwi ond taflu ymmaith y gweithredoedd drygionus ſydd yn ei annog ef i ddigofaint, 2 *Cor.* 5. 20. O fel y gortoledda calonnau eich Gweinidogion y rhai ſydd yn gwîr garu eich Eneidiau, weled eu llafur yn ffynnu, a'ch dyfod attynt gan ymofyn beth a wnewch i fôd yn gadwedig, gan adrodd eich edifeirwch am eich Helyntiau drygionys o'r blaen, a'ch ymroad o hyn allan i fôd yn Greaduriaid newydd. Yn ſicr nid ydym ni yn annog mo'noch i ddim ond ſydd dra rheſymmol ac er bûdd i chwi eich hunain, tra bôm ni yn eich cymmell i ddychwelyd i ffafr Duw. Pa ham gan hynny na wrandewch chwi arnom? Pe 'r anfonid Cenadwri o drugaredd i chwi oddiwrth y Brenin, pan faech mewn perygl marwolaeth am deyrnfrad, Oni dderbyniech chwi ef yn ortoleddus ac yn ddiolchgar? Ac oni byddwch chwi mor ddiolchgar ac ufudd i frenin y Brenhinoedd, ac mor ſynhwyrol i achub eich Eneidiau ag i gadw eich Cyrph.

Ac heb law ei Air a'i Weinidogion, Mae Duw drwy ei Ragluniaeth yn ymreſymmu a chwi i'ch dŵyn i edifeirwch. Weithiau y mae 'n danfon helbulion i'ch ceryddu am eich beiau, i ddangos i chwi ddrygioni pechod, ac i'ch dŵyn adre atto ei hûn; ac amſerau craill mae ete 'n danfon aml drugareddau, fel y mynegais i chwi, i feddalhau eich calonnau, i'ch rhwymo ac i'ch denu i'w waſanaeth: A'r cyfryw ddefnydd da a ddylem ni ei wneuthur o holl ymdriniad Duw a nyni.

(4.) Yſtyriwch ymhellach *Pa rwymedigaethau i fywyd duwiolyr ydych chwi yn gorwedd danynt wrth eich proffes eich hunain, addewidion ac addunedau.* Yr ydych chwi yn eich proftefu ac yn eich galw eich hunain yn Griſtnogion, Diſgyblion

a dilynnwŷr Chriſt : Oni ddylech chwi gan hynny ddilyn ei eſampl ef, ac ufuddhau i'w orchymmynion, o's gwnewch chwi yn dda yr Enw hwnnw ? Chwi a'i tybiech yn ammarch mawr i chwi gael eich galw nid yn Griſtion onid yn Iddew neu Dyrc. Gochelwch gan hynny rhag tynnu yr ammarch hwn arnoch eich hûn drwy dymmer meddwl angnghriſtnogawl, a helynt buchedd ddrwg. Os ydych yn ffals neu 'n llidiog, yn gybyddaidd neu 'n drachwantus megis Tyrc neu Iddew, ni waeth tawr pa fôdd y galwoch chwi eich hunain. Nid yw efe Griſtion yr hwn lydd felly oddiallan, ond yr hwn y mae yr ûn meddwl ac Yſpryd gantho ag oedd yng-Nghriſt Jeſu. Ni farn Duw yn y dydd diweddaf mo ddynion yn ôl eu henwau a'u teitlau, ond yn ôl eu calonnau a'u bucheddau. Yn unig gwaeth o lawer a fŷdd i'r hwn a'i galwo ei hûn yn Griſtion, ac etto a to'n bŷw megis ûn o'r Cenhedloedd neu fel y diffydd.

Ac attolwg yſtyriwch fel yr ydych chwi wrth eich Bedydd wedi eich cyhoedd-rwymo eich hunain dan faner Chriſt, i ymladd yn erbyn Diafol y Bŷd a'r Cnawd ; Ac wrth gadw'r Addduned hon y dangoſwch chwi eich bôd eich hunain yn Griſtnogion mewn gwirionedd. Ond os arweinir chwi ymaith gan brofedigaethau Satan, a gwneuthur o honoch ei waſanaeth ef, a'ch bôd wedi eich rhwydo gan wagedd y Bŷd, chwantau a dityrrwch y Cnawd, 'r ydych chwi mewn effaith yn ymwrthod a'ch Bedydd.

Heb law hyn, Oni ddarfu i chwi adnewyddu yr unrhyw addduned hon yn y Cymmun Sanctaidd, ac yno cyhoedd gyfaddef eich crediniaeth yng-nghroes Chriſt, gan addo ufudddod iddo ef? Os chwi ni dderbyniaſoch y Sacrament Sanctaidd hwn, er eich bôd, er ys talm o fewn oedran pŵyll a dealltwriaeth, yr ydych chwi gan hynny yn eich dangos eich hunain drwy'r eiceuluſtra hwn nad ydych yn ddiſgyblion ufudd i Griſt, gan nad ydych yn ufuddhau i'w orchymmyn eglur ef, ſef, *Gwnewch hyn er coffa am danaf*, Luc. 22. 19. Ac yn ddiau yr wyſ yn ofni fôd llawer o bobl diofal heb ddyfod i'r Cymmun, oblegid eu bôd o'r meddwl y rhwymai hynny hwynt i arwain y cyfryw fywyd caeth a dwyfol, yr hwn nid ydynt yn bwriadu ei ddilyn. Etto ai nid ydynt hwy yn taflu ymmaith Jeſu Griſt oddiwrth fôd yn Feiſtr iddynt, y rhai ydynt yn edrych ar ei orchymmynion ef megis yn rhy gaethion ac yn rhy dôſt, ac ni addawant ufuddhâu iddo ? Iê onid ydynt hwy drwy hynny yn gwadu eu Bedydd, drwy ba ûn y rhwym-

rhwymwyd hwynt i'r ufudd-dod hwn? Gan hynny y mae 'n debygol mai yr un rheſwm ag ſydd yn eu cadw hwynt oddiwrth y Cymmun, a'u cadwai hwynt oddiwrth feoydd, pe bae o etto i'w wneuthur. A pha fâth Griſtnogion ydyw y rhai a ymwrthodent a Bedydd Chriſtnogol, oblegid ei fôd yn eu rhwymo hwynt i ſuchedd ſanctaidd?

Os ydych chwi yn ddieuog o'r eſceuluſdra hwn, ac yn dyfod weithiau i ſwpper yr Arglwydd, i gadw coffadwriaeth am ei farwolaeth a'i ddioddefaint ef: Yna attolwg yſtyriwch eich bôd drwy dderbyn y Sacrament Sanctaidd hwn, yn cyhoeddadnewyddu eich addunedau o fôd yn Waſnaethwŷr flyddlon ac yn Ddiſgyblion i Griſt, ac i rodio mewn ufudd dod diragrith i'w holl Ddeddfau Sanctaidd ef fel yr ydych yn gobeithio cael Iechydwriaeth drwy ei farwolaeth ef. Gan hynny ond da y gallaf i erfyn arnoch gymmeryd pob gofal dyledus ar fyw yn ôl eich addewid hon a'ch rhwymedigaeth. Pa gywilydd ydyw i ŵr fôd yn ffals i'w Air, mwy o lawer i'w Lwf! O na thorrwch gan hynny mo'r llwf a wnaethoch chwi i Dduw ei hun wrth dderbyn y Sacrament Sanctaidd hwn. A gelwch i'ch côf oni ddarfu i chwi weithiau ar eich clâf wely neu mewn rhyw berygl dirfawr wneuthur yr unrhyw addewid ac addunedau: ac oni arbedodd Duw chwi i weled pa fôdd y cyflawnech chwi yr unrhyw? Gochelwch gan hynny ddiyſtyru ei drugaredd ef a thorri eich addewid.

Ymmhellach, mi a allwn ddangos i chwi pa fôdd y mae eich proffes chwi o gredu y Credo yn eich rhwymo chwi i fyw yn ddeddfol, yn ôl y Fydd Sanctaidd yr ydych yn ei phroffeſſu, *Yr hon ſydd Athrawiaeth yn ôl Duwioldeb.*

Ond, yn ddiweddaf, mae hyd yn oed y gweddiau yr ydych yn eu rhoddi i fynu i Dduw yn rhoi yr un rhwymedigaeth arnoch, ſef, i wafnaethu ac i fodloni yr un Duw hwn yr ydych chwi yn ei Addoli. I roi eſampl ar fyrr yngweddi 'r Arglwydd, Tra 'r ŷm ni yn galw Duw *Ein Tâd*, &c. Oni ddylem ni ei garu a'i anrhydeddu ef, ufuddhau ac ymddaroſtwng iddo megis ein Tad Nefol? Tra y gweddiwn ni *Sanctteiddio ei Enw ef, dyfod o'i Deyrnas, a gwneuthur ei ewyllys ar y ddaiar megis yny nefoedd,* Oni ddylem ni ein hunain anrhydeddu ei enw ef, a derchafu ei Deyrnas ef, gan ufuddhâu i'w ddeddfau, a chan wneuthur ei Ewyllys ef yn ddianwadal ac yn gyſſurus fel y gwna 'r Angylion yn y nefoedd, hyd at eithaf ein gallu? Gweddio am *ein bara beunyddiol* ſydd yn dyſgu i ni ein pwys a'n hyder ar Dduw, ac yn ein rhwymo i'w waſnaethu ef gan

ba

ba un i'n cynhelir. Pan weddïom ar Dduw *ar ſaddeu i ni ein dyledion fel y maddeuwn i eraill,* mae hynny yn ein rhwymo ni yn gaeth i faddeu i'r lawl a wnêl ar fai i'n herbyn, fel y mae gennym obaith cael tŷth drugaredd gan Dduw. A phan weddïom *na'n harweinier i brofedigaeth eithr ein gwared ni rhag drwg,* hyn a ddylai ein ffrwyno ni rhag rhedeg i brofedigaeth, a'n gwneuthur ni yn ofalus i ochel pob pechod a'i achoſion ef. I'r un perwyl mi a allwn hefyd grybwyll am Weddiau yr Eglwys, pr'hon'r wŷf yn gobeithio fôd eich cynniweirfa yn aml. Yno yr ydych yn dechreu a Chyffes o'ch pechodau, ai ni ddylech chwi hefyd ymwrthod a hwynt yn gyſtadl a'u cyffeſſu? Ac yn niwedd y Gyffes yr ydych yn gweddïo *ar Dduw er mwyn Chriſt fyw o honoch rhag llaw mewn Duwiol, union a ſobr fuchedd.* Ac agos ym mhôb gweddi chwi a gewch ryw beth i'r effaith hyn. Yn awr yr wy'n gobeithio eich bôd chwi mewn difrif calon yn eich gweddiau hyn, onid ê gwatwar Duw a dal gŵg iddo yr ydych, yn lle ei addoli a'i fodloni ef. Ond os ydych chwi o'ch calonnau yn deiſyfu y pethau hyn yr ydych chwi yn gweddïo am danynt, yna chwi a wnewch eich rhan i'w mwynhau hwynt, a chwi a wnewch eich goreu yn ddiwŷd ar fyw yn y cyfryw fodd Sanctaidd a daionus ag yr ydych yn gweddïo ar i chwi wneuthur. Ac os 'chwanegwch chwi fel hyn ddiwydrwydd at eich Gweddiau, ni bydd arnoch fŷth eiſiau Gràs Duw i'ch cynnorthwyo.

(5.) Yſtyriwch hefyd mor gyfiawn ac uniawn yw holl orchmynion Duw, y cyfryw na all ein Rheſwm ni ein hunain amgen na chydſynio a hwynt, megis yn fwyaf cyttunol a ny ni fel yr ydym ni yn Greaduriaid Rheſymmol. I roi eſampl yn y pennaf o honynt; ond tra chyfiawn ac addas yw y carem ni Dduw uwchlaw pôb peth, yr hwn yw'r gorau a'r perffeithiaf o'r holl Hanfodau, ac oddiwrth ba ûn yr ydym ni 'n derbyn ein holl bethau daionus? Oni ddylem ni weddïo arno ef yr hwn yn unig a ddichon ein gwrando a'n cynnorthwyo ni; a rhoi diolch a moliant iddo ef yr hwn yw Tâd y trugareddau? Onid ydyw yn dra rheſymmol i Blant u fuddhau i'w Rhïeni, a Deiliaid i'w Rheolwŷr? a bôd i bôb dŷn fyw mewn heddwch a chariad a'u gilydd, a dywedyd gwirionedd, a gwneuthur goneſtrwydd fel y mynnent wneuthur a nhwythau? Onid yw 'n drachymmwys a gweddaidd i bob dŷn twytta ac yfed yn gymhedrol, fel y mae 'n orau er mŵyn ei iechyd? Bôd yn ardymherus ac yn ddiwair yn ei holl Ymarweddiad?

arweddiad? Oni chydnebydd Rheſwm pob dŷn uniondeb ac addaſrwydd y Deddfau hyn a'r cyffelyb? Ac am rai ſydd yn ymddangos a mwy toſtrwydd ynddynt, ſe ellir rhoi rheſwm da iawn am y rhe'ni hefyd. Gan hynny y mae yn eglur, tôd holl orchymmynion Duw yn gynghorion doethion ac iachuſol Tad tra-thyner, yr hwn nid yw yn gwahardd i'w Blant ddim ond ſydd niweidiol, nac yn gofyn dim ganddynt ond ſydd er daioni iddynt eu hunain, ſef *gwneuthur barn, a hoffi trugaredd, ac ymoſtwng i rodio gyda eu Duw.* Mic. 6. 8. *Iau Chriſt ſydd eſmwyth, a'i faich ſydd yſgafn.* Mat. 11. 30. Gwaſanaeth Duw yw'r gwîr fraint, fel yr ydym ni beunydd yn ei alw yn ein Gweddiau. A'i *orchymmynion ef nid ydynt drymmion,* 1 Ioan 5. 3. Oni byddwn ni gan hynny mor oſtyngedig i'n Tâd nefol, ie mor ſynhwyrol er ein daioni ein hunain ag ufuddhâu i'r Deddfau tra-rheſymmol a graſuſol a roddes efe i ni? Mor gyflawn ac uniawn ydynt, na allwn ni dorri mo'nynt heb gynnyg màth ar gam i ni ein hunain, gan fyned yn groes i reſwm ein meddyliau. *Goleuni ydynt i'r llygaid, a gorfoledd i'r galon, melyſach i wr da na'r mêl, ac na diferiad diliau mêl,* megis y mae y Pſalmydd yn fynych yn adrodd. Mor gyfaddas yw gorchymmynion Duw i'n natturiaethau ni, ac mor ddefnyddiol ac iachus i'n Heneidiau ni ag ydyw'r lluniaeth iachaf i'n Cyrph. Ac mae yn gymmaint doethineb i ddŷn hwylio ei ymddygiad a'i ymarweddiad oll yn ôl deddfau Duw, ag ydyw iddo ef fyned mewn gwiſg weddaidd, a bwytta ac yfed yr hyn a fo da er ymborth iddo. Ond ar y llaw arall ped fae un yn rhedeg yn noeth o amgylch yr heolydd, ac yn llenwi ei enau o dom a budreddi, a phe torrai efe ac y dragiai ei gnawd ei hûn, ni fyddai hynny ddim yn arwŷdd mwy o ynfydrwydd a gwallgof, nag a fyddai iddo ef fyw yn ôl ei drachwantau ei hunan, yn hyttrach nag yn ôl deddfau Duw, y rhai ſydd morgyttunol a'n Rheſwm ni, ac mor eglur yn cŷd-arwain at ein gwîr leshâd a'r elw pennaf i ni ein hunain, yn y bywyd hwn, a'r hwn ſydd i ddyfod, fel yr ymddengys wrth yr hyn ſy'n canlyn.

(6.) Yſtyriwch gan hynny yn y lle neſaf, mai gwirionedd tra-ſicr ydyw, *Fôd arwain buchedd dda ſanctaiddiol ym mhob moddion er tramawr fudd a chyſſur i ddyn ei hunan, ie yn y hyd preſennol hwn. Duwioldeb ſydd fuddiol i bob peth.* Mae'n peri llonyddwch i'n Meddyliau, iechyd i'n Cyrph, yn 'chwanegu ein cyfoeth, ac yn dwyn i ni fawr barch a chymmeriad, mawr

gariad ac ewyllys da ym myſg ein Cymmydogion. Ïe mae'n gyffredinol yn dwyn gydag ê bob mâth ar Fendithion, ac yn gwneuthur eu mwyniant hwyrt yn felyſach ac yn hyfrydach, ac mae yn cadw ymmaith lawer iawn o helbul yr hyn y mae rhai drygionus yn eu tynnu arnynt eu hunain, ac yn rhoddi i ni gynnorthwy mawr ac eſmwythder dan y blinderau hynny y rhai all Rhagluniaeth Duw eu goſod arnom. Yn gymmaint ag na ddichon ûn dŷn o ba râdd neu gyflwr bynnag, arwain gwîr gyſſurus fywyd, oni bydd iddo arwain Buchedd Sanctaidd a daionus. A hyn oll a fynych-ddyigir yn yr Yſgrythyr, ac a ellir yn hawdd ei hegluro drwy Reſwm golau: Neu oni bydd hynny yn ddigon, mae yn dra eglur i'w ddirnad drwy brawf beunyddiol, fôd i'r rhai a wîr ofnant Dduw, fŵy heddwch a diddanwch yn y bŷd hwn, nag i ddrwg fucheddwŷr afreolus, y rhai ni wnânt Gydwybod o'u ffyrdd.

Pe gwnawn i y gyffelybiaeth yn unig rhwng Gŵr fobr a Meddwŷn, pa ûn dybygech chwi ſy'n cael y gorau yn y Bywyd hwn? Pa ſawl gwaith y mae'r Ytwŷr mawrion nid yn unig yn difrodi eu Meddiannau, ond yn diniſtrio eu Hiechyd, yn gwanhâu eu Hymmenyddiau, ac yn byrhâu eu Heinioes? Pa nifer o weithiau y maent yn cwympo mewn cynhennau, yn cael yſigtod ac archollion, ac weithiau marwolaeth ei hunan, naill ai drwy ymladd neu drwy ryw ddigwyddiad greſynol neu ei gilydd. Weithiau hyd yn oed y plant yn yr heolydd a redant ar eu hôl hwynt, gan floeddio a gwneuthur gwatworgerdd o honynt. Ac os dilynwch chwi hwynt i'w Trigfannau eu hunain, pa fâth gythryfwl a mowrddrwg y maent yn ei wneuthur yno? Pa dyngu a rhegu, pa fonllefain ac ymleſlef, pa fâth gynhennu ac ymladd ſydd yno? Pa fâth ddolefain a galarnadau y mae Gwraig a Phlant yn eu gwneuthur? y rhai y prŷd hyn ond odid ſydd dda ganddynt ddiangc ymmaith o ofal am eu heinioes, felyr oeddynt o'r blaen yn eiſtedd gan newynu am yr arian a ddifrododd yr Hwſmyn drwg hyn yn y dafarn. (Pechod a chwilydd ydyw i'r rhai a'u croeſawant.) Ac wedi iddynt fyw ennyd yn ôl yr helynt wŷllt ddrygionus hon, y newŷdd neſſaf yn gyffredinol y fyw, eu bôd naill ai am Ddyled ai Afreol wedi eu bwrw i Garchar, ac weithiau gan y Bobl hynny yn Nhai pa rai yr yfaſant hwy ymaith yr hyn oll a ennillaſant. Ac yn awr y cymmhellir hwynt gan angenhoctid i fyw ar fara a dwfr ac i oedi allan fywyd greſynol newynllyd, mewn ceudwll oeredd drewllyd, nes naill ai i gariad Cyfneſyfiaid, neu farwolaeth ei hûn ei rhyddhâu oddiyno. (Ac

ar

ar y ffordd, a ydyw hon yn gyfryw fuchedd hyfryd ag y tâl hi ſôd yn ddamnedig o'i herwŷdd i boenau Uffern yn dragwyddol? Ond mi a adawaf hyn tan yn y man.)

Fel hyn hefyd y gallwn i adrodd am reſynol ffrwythau Putteindra, yr hwn yn gyffredin a ddilynir a thlodi ac â gwradwydd, ac yn fynych iawn a ffieiddgiwyſ afian, yr hwn a wna i ddynion bydru uwch daiar. Ac fel hyn pobl digllon, beilchion, maleiſus, ymddialgar, ydynt yn boen waſtadol iddynt eu hunain ac i bawb o'u hamgylch, ac nid oes na heddwch na llonyddwch ond yn anaml rhyngddynt a'u Cymmydogion nac a'u Teuluoedd eu hunain. Y cyffelyb u ellir ei ddangos am bôb beiau eraill y rhai ydynt gynnefin yn oeſtad o ddŵyn eu coſpedigaeth eu hunain gyda hwynt; heb ſôn dim am yr hyn y mae neu a ddylai y Swyddog ei wneuthur iddynt. Yn enwedig y cyfryw ddrwg-weithredŵr a Lladron a Lleiddiaid, Teyrnfradwŷr a Gwrthrytelwŷr, ydynt yn anfynych yn diangc o ddwylo Cyfiawnder cyhoeddus. *Ond pwy a wna niwaid i ddynion os dilynant hwy yr hyn ſydd dda?* Neu pa ddialedd y mae dŷn yn ei ddŵyn arno ei hûn wrth fyw 'n ſobr ac yn ddiwair, wrth ofni Duw ac anrhydeddu'r Brenin? Pa ddrwg a ddaw i ddŷn o ddilyn ei negeſeuau ei hûn, ac o fyw yn llonydd ac yn dangnheddyfus ymmyſg ei Gymmydogion? yn hytrach onid ellwch chwi weled mor ddedwyddol y mae rhai, ïe y ſalaf o honom yn byw, y rhai ydynt ddiwyd yn eu Galwedigaethau, a ſobr ac ardymherus, ac yn ofalus am fodloni Duw, ac am gadw Cydwybod dda yn eu holl ffyrdd. Anfynych iawn y cyfyngir arnynt gan fawr angen, neu pe cwympent yn iſel eu cyflwr, etto pob Dyn da a'u hadwaen, ſydd barod i doſturio ac i roddi ymwared iddynt: ac yn fynych a'u coelia am arian neu eu gwerth hyd onid allont dalu. A phawb ſydd ewyllyſgar i roi Gŵr goneſt gofalus ar waith, fel na bo arno ond yn anfynych eiſiau Gwaith neu Farſiandiaeth. Ond Dynion ſegur, anllywodraethus, a ddilynant feddwdod a phutteindra, chwaryddiaeth, a thŵyll, a lledrad; a eſgeuluſant waſanaeth Duw, ac a halogant ddydd yr Arglwydd, gan fôd yn fynych yn y Dafarn pan ddylent fôd yn yr Eglwys; y rhai'n yw'r Bobl, os deliwch chwi ſulw, a gwympant yn gyffredin i'r eiſiau a'r trueni gwaelaf; ac eraill ni thoſturiant ond ychydig wrthynt, o herwŷdd dwyn o honynt hyn oll arnynt eu hunain. O mor ddedwŷdd y gallai bôb mâth ar ddynnion fôd, ïe mewn meſur mawr iawn yn breſennol, pe deuent hwy i fôd yn wîr grefyddol ac yn dda. Eu pechod a'u hynfydrwydd

eu hunain, eu trachwantau a'u gwyniau yw'r achoſion o'r rhan fwyaf o'r trafferthion a'r trueni y maent hwy yn cyfarfod a hwynt; er y gwn i 'n dda eu bôd hwy'n arfer o lefain allan fôd eu tynghedfen yn galed, ac o fwrw y bai ar eraill, ac weithiau o rwgnach yn erbyn Duw ei hun. Ond nid ydynt hwy yn yſtyried fel y maent beunydd yn annog Duw i ddigofaint drwy eu hechryſlon bechodau, ac a allant gan hynny fôd yn wir deimladwy o'i farnedigaethau trymmion ef am yr unrhyw, heb law yr holl fowrddrwg ſydd yn anocheladwy yn gorddiwes drygioni. A hyn ſydd yn gwneuthur eu cyflwr hwynt yn wir-reſynol, eu bôd hwynt yn ogwyddedig yn waſtadol i ddigofaint Duw, ac allant yn gyfiawn ddiſgwil ei deimladd ef i gwympo arnynt, ac i'w noethi hwynt o'i holl gyſlur, a'u tafiu i'r dinyſtr blinaf.

Ond yn y gwrthwyneb, yn hyn uwchlaw'r cwbl y mae diogelwch a chyſlur gŵr da yn gynnwyſedig, ei fôd ef yn mwynhau bendith a ffafr yr Holl-alluog Duw, ac am hynny mae iddo ſiccrwydd na bydd arno eiſiau dim ſydd wîr-dda ar ei lês ef. Felly mae 'r addewid, Pſal. 84. 11. 12. Mat. 6. 33. *Y rhai yngynta f a geiſiant deyrnas Duw, a'i gyfiawnder ef, a gânt bôb cyfreidiau yn ychwaneg.* Fel na ddichon gŵr tlawd gymmeryd un ffordd ſiccrach, i ddarparu iddo ei hûn ac i'w Deulu, na dyſod i fôd yn wîr greſyddol; ſe allai na chaiff efe bethau mowrion yn y Byd, etto ſe a gaiff ymborth cyfaddas. Ac yna, yr hyn ſydd well na'r cwbl ôll, et a gaiff fendith Duw gyda 'r hyn y mae efe yn ei fwynhâu; a hyn a ddyry iddo ef fwy o wîr fodlondeb a chyſlur yn yr ychydig ſydd ganddo, nag a ddichon Gwr drygionus ei gael yn ei holl Dryſorau mowrion. Duwioldeb gyda bodlonrwydd ydyw 'r elw mwyaf, *Pſal.* 37. 16. 1 *Tim* 6. 6. Gŵr tlawd ac ſydd gantho ond dymuniad *Jacob*, Llunia eth i'w fwytta, a Cwîſg i'w roi am dano; Os oes gantho hefyd Dduwioldeb *Jacob*, ac ydyw yn cymmeryd yr Arglwydd yn Dduw iddo, ac yn byw yn ei ofn ef a'i wafanaeth, ac yn mwynhâu teimledigaeth o'i ffafr ef, o mor fendigedig ydyw helynt y gŵr hwn? mor gyſſurus y gall efe fyw bob amſer, er ei fôd mewn tlodi? Beth er bôd ei Drigfa yn wael, ei Ymborth yn oarw ac yn galed, a'i Wiſg yn ddiſyml iawn; etto tra y caro efe Dduw yn ddi-ragrith, ac yr addolo efe ef beunydd yn ddefoſionol, efe a all droi ei gaban tlawd yn Balas, ie yn Deml; a'r Duw bendigedig a ymwel ag ef a'i broſennoldeb, a gymmer yn gymeradwy ei wafanaeth ef, ac a'i llonna ef a llewŷrch ei wynebpryd. Ac ar y gwybodaeth

a'r

a'r mwynhâd hwn o Dduw, y mae gwîr gyflur bywyd dŷn yn pwyſo, beth bynnag a fo ei gyflwr ef oddiallan. Hyn yn unig ſydd yn rhoddi heddwch a bodlonrwydd i'w feddwl ef oddimewn, ac yn pereiddio ei holl drugareddau, ac uwchlaw pôb peth, yn cynnal i fynu ei galon dan y blinderau y cyferfydd ef a hwynt. Canys mae 'n rhaid i'r gorau o ddynion ddiſgwil eu rhan o'r gorthrymderau oddiallan yn y Byd hwn, megis clefyd a dolur, colled am Gyfeillion ac am dda bydol, a'r cyfryw; y rhai'n ydyw y gofidiau cyffredin i bawb. Ond ymma y mae y gwr da yn eglur yn rhagori, gan ei fôd yn edrych ar bôb peth a ddigwydd iddo ef megis yn dyfod oddiwrth ddwylo Duw tra doeth a grafuſol, yr hwn a wŷr beth ſydd orau iddo ef, ac i ewyllys pa un y mae efe yn rhwydd yn ei roddi ei hunan i fynu, a'i holl regeſeuau, gan ddywedyd gyda'i Feiſtr bendigedig, *Nid felyr ydwyſi yn ewyllyſio, ond felyr ydwyt ti.* Ïe, mae efe yn derbyn blinderau megis wedi eu danfon mewn addfwynder, i'w geryddu ef am ei feiau, i ymarfer ac i ychwanegu ei Rafau, ac felly i'w barottoi ef i Ogoniant. A dymma fawr elw Crefydd, ei bôd yn dyſgu i Ddŷn i ba le i fyned am gyflur ac ymwared yn ei holl ing a'i gyfyngder, ſef at y Duw mawr daionus, yr hwn ſydd alluoccaf a pharottaf i gynnorthwyo ei Bobl yn holl amſer eu trallod. Hyn yr ydym ni yn oeſtad yn ei ddarllain yn yr Yſgrythyr oedd arfer Gwŷr Sanctaidd, a hwy a ddeallafant nad ofer y doedd. Ac hyd y dydd hwn y caiff hôll weiſion ffyddlon Duw ddyfod o hŷd i'r ffrwythau daionus o roi eu gogwydd yn ddefofionol tel hyn ar Dduw drwy weddi. *Canys mae ei dlwg ef bôb amſer ar y rhai cyfiawn, a'i gluſt yn agored i'w llefain hwynt.* Mae efe yn toſturio wrthynt, yn eu cyfluro ac yn ei cynnal hwynt. Ni elyd ef ddim ychwaneg arnynt nag y rhoddo efe allu iddynt i'w ddŵyn; ac yn ei amſer da, efe a gyflawna eu deffygion, ac a'i gwared hwynt o'u gorthrymderau, ïe, efe a'i trŷ hwynt yn fendithion, ac a wna *bôb peth gyd-weithio er daioni iddynt*, fel yr addawodd efe i'r rhai *a'i carant ef*, Rhuf. 8. 28. O pa fâth ddedwyddwch ydyw bôd yn gydnabyddus a Duw, a bôd gennym wîr deimledigaeth o'i Ragluniaeth ef, fel felly y bô i ni fŷw arni a gwneuthur y goreu o honi, *Job* 22. 21.

Ond mor refynol yw cyflwr y drygionus, yr hwn nid oes ganddo ddim o'r cyfryw wybodaeth o Dduw, dim cariad iddo, na dim diſgwiliad am gymmorth ac ymwared oddiwrtho. Y mae efe yn ei hawddfyd mwyaf yn ŵr annedwŷdd iawn, tra bô efe byw heb Dduw yn y bŷd; ond yna y deall efe ac y bydd

ei hun yn deimladwy o hynny yn ddïau, pan gwympo ef i ryw adſyd tramawr, ac nis gŵyr pa ffordd y trŷ efe am gyſſur ac ymwared. Canys fel y mae drygioni yn oeſtad yn dŵyn dŷn i drueni (megis y dangoſais i o'r blaen) felly yno y mae yn ei ado ef mewn cyflwr tra-gofidus ac anobeithiol. A thymmer ddrwg eu meddyliau ſydd yn 'chwanegu pŵys llwythog at eu gofidiau, ac yn mwyhau yn dra-boenedig eu gerwindeb hwynt. Synnied eu heuogrwydd eu hunain ſydd weithiau yn arteithio eu Cydwybodau hwynt: ac yn eu llenwi ag ofn a dychryn: weithiau maent yn ffrommi ac yn ymddigio wrth y rhai a roefant gymmorth tuag-at ddwyn ymlaen eu dioddefiadau, ac weithiau y maent ie yn cablu Duw ei hûn, ac yn grwgnach yn erbyn ei ragluniaeth ef. Y pryd y bo'r gwr da gyda *Job* yn bendithio Duw yn ei holl orthrymderau, mae y rhai'n yn barod i ganlyn cyngor ei wraig ef, tef i felldithio Duw a marw. Canys gan eu bôd yn llawn o gyſyngder ac anobaith, maent ymron amhwyllo, ac yn ſſin ganddynt eu heinioes, fel yr ydym ni yn darllain am *Gain*, a *Judas*, a'r cyfryw, yn yr Yſgrythyr ac mewn Hiſtoriâu eraill. O'm rhan i 'rwy'n rybied mewn gwirionedd, yn nefaf at y Cythreuliaid a'r rhei'ni ſydd yn Uffern, nad oes Greaduriaid yn y bŷd druanach na phobl annuwiol drygionus; a thra y gwelom ni beth yw ffrwyth cyffredin pechod ymma ar y Ddaiar, hawdd y gellir ein gorfod ei fôd yn arwain i Uffern a Damnedigaeth yn ôl hyn. A hyn ôll y mae dynion yn wallgofus ac yn unchwant yn rhedeg iddo drwy eu drwg weithredoedd eu hunain; megis y mae dŷn a wthio ei ddwylo i'r tân, yn debyg i gael dolur a lloſgfa. *Drwy ymwrthod a Duw, maent yn gwrthod trugareddau iddynt eu hunain, a thrwy bechu yn ei erbyn, maent yn gwneuthur cam a'u Heneidiau*, ïe, a'u Cyrph hefyd, ac a'u Perthynas oll. Fel yn y gwelwch chwi fôd Bywyd ſanctaidd yn dra-buddiol i ni ie yn y Byd preſennol hwn, yn lluddias llawer o ddrwg, ac yn dŵyn gydag ê bôb mâth ar ddaioni. Neu os ſyrth dŷn i'r cyfryw amſeroedd blinion, a dioddef o honaw yn unig o achos Crefydd a Chydwybod dda, y pryd hynny y caiff efe yn gyffredinol y cyfryw ryfeddol gyſſur a bodlondeb meddwl, ag y caiff efe fuddugoliaeth a gorfoledd yng-nghanol ei ddioddefiadau, fel y gwyddom gael o'r Apoſtolion a'r prif-Griſtnogion, a hynny yn enwedig mewn gobaith o'r Gobrwy gogoneddus a roddwyd i gadw i Wŷr da yn y Nefoedd. Ond hynny a'm dŵg i at yr Yſtyriaeth ddiwaethaf y crybwyllaf fi am dani.

(7.) Sef

(7.) Sef, *Mai Bywyd Sanctaidd drwy oludog drugaredd Ddûw, a'n gwna ni yn berffaith ac yn dragwyddol-fendigedig yn y Byd a ddaw, ond helynt Buchedd ddrwg a arwain i dragywyddol dru-eni a phoenedigaeth.* Yn ôl fel y bôm ni byw yn y Byd hwn, felly y mae yn rhaid i ni gael yn y neſſaf: canys y Bywyd hwn ſydd fuchedd o Brawf mewn tretn i Dragwyddoldeb. Ie ym Marwolaeth y mae gan Wr da ſail o gyſſur mawr, gan fôd gantho dyſtiolaeth Cydwybod dda, a tynied o gariad Duw, yn yr hyn y gall efe gyda ſanct *Stephan*, orchymmyn ei Enaid i ddwylo 'r Arglwydd Ieſu, yr hwn ſydd barod i'w dderbyn ef. Ond pa mor reſynol ydyw i'r Gŵr drygionus, pan fyddo heb law holl ddoluriau ei Gorph, ei Feddwl heſyd yn cael ei benydio a chroſſadwriaeth o'i bechodau, ac âg ofnedigaeth digofaint Duw. Ond y rhagoriaeth mawr a wneir yn nŷdd y Farn, pan *oſoder y defaid a'r ddeheulaw Chriſt, a'r geifr ar yr aſſwy*, ſel y cewch chwi wedi ei egluro *Mat.* 25. 31, &c. I'r rhai ar y llaw ddehau, hynny ydyw i'r rhai Duwiol a da, yr adroddir y farn orfoleddus honno, *Deuwch chwi fendigedig blant fy Nhad, etſ-feddwch y Deyrnas a barottowyd i chwi er pan ſeiliwyd y Byd.* Ac yno y cânt hwy ſyned i'r Deyrnas dra-ogoneddus honno, lle ni chaiff na phechod na thriſtwch fŷth aflonyddu mo'nynt mŵy; lle ni chânt hwy fŷth nac ofn na theimledigaeth o fâth yn y bŷd ar ddrygioni na phoendod, i'r Enaid na'r Corph: ond hwy a gânt eu derbyn yn ddiattreg i breſennoldeb Duw, lle mae cyflownder o orfoledd bŷth. Hwy a gânt y cyfryw eglur wybodaeth o'r bŷth-fendigedig Ddûw, a'r cyfryw fywiol ſynnied o'i annherſynol Berffeithrwydd ag a'u lleinw hwynt o Ryfeddod, Cariad a Mawl: a hwy a gânt deimledigaeth o gariad Duw a'u Hiachawdwr wedi ei dywallt mor helaeth arnynt, y cyfryw ag a dderchafa eu Calonnau, hyd yr uchder eithaf o lawenydd a diolchgarwch, a'u geneuau a lenwir o Haleluiahau a Chaniadau Mawl, ac yn y Gorchwyl tra hyfryd hwn y cânt hwy bŷth bythoedd fôd yn gyfrannog a'r gymmanſa fendigedig yn y Nef. Dyna berffeithrwydd y cwbl ôll, ſef na bŷdd i orfoledd y Neſoedd fŷth ddiben. Mae *yn odidog-ragorol yn gweithredu tragwyddol bwys Gogoniant i ni*, yn ôl yr addewid 2 Cor. 4. 17, 18. *Ni a gawn fôd gyda 'r Arglwydd yn oeſtadol.* 1 Theſ. 4. 17. Y Duw tragwyddol a fydd y Rhan a gaiff ei Bobl ei; a'u gorfoledd ynddo ef ni leiheir ac ni tholir drwy bob tragwyddoldeb. Hwy a fyddant yn oeſtadol yn ei fendigo a'i foli ef, yn oeſtadol wedi cael eu bodloni a'u digrifo wrth edrych ar ei Ogoniant ac a mwyn-

hâd

hâd ei gariad; yn oeſtadol wedi eu diſyrru â thra-hyfryd a chytſûnol gymdeithas Angylion a Seintiau: A cheraint anwŷl a chyteillion ni wahenir byth mwy oddiwrth eu gilydd, pan gyfarfyddant unwaith yn y Nef. Nid oes gan Farwolaeth ddim gallu arnynt mwy. Maent wedi dyfod mewn rhyw feſur megis Chriſt ei hûn, ac yno y cânt hwy ei weled ef megis ag y mae yn ei holl ogoniant, *Phil.* 3. 21. 1 *Ioan* 3. 2.

Ond pa beth yw cael ein gwneuthur yn debyg i Griſt, gweled Duw a'i twynhâu, nid allwn ni yn gyflawn na'i adrodd na'i ddirnad tra y bôm ni ymma yn y Corph: eu lleihau a'u hammherchu yn ddirfawr, a fyddai i ni gyfflybu gogoniant y Nefoedd i hôll olud ac anrhydedd Llyſoedd a Phalaſau ymma ar y Ddaiar. Y gogoniant a'r gorfoledd nefol hwnnw ſydd cymmaint ag nad ellir fyth mo'i heglur adnabod nes eu bod wedi eu mwynhâu: fel na ddichon Gwr dall fŷ'n ddywedyd yn iawn beth yw goleuni, hyd oni bô ei Lygaid yn agored i'w ddirnad. Mae'n ddigon i ni fôd gennym ſiccrwydd cyflawn gan addewidion yr Efengyl, fôd y cyfryw fywyd o anrhaethol ddedwyddwch wedi ei ddarparu i Ddynion da yn y Byd a ddaw. Ac fel yr aeth yr Arglwydd Ieſu o'r blaen i'w barottoi iddynt, felly yn awr y mae efe drwy ei Yſpryd ſanctaidd yn eu parottoi hwynt i'r lle bendigedig hwnnw, drwy weithio ynddynt y grâs ſydd yn eu cymhwyſo hwynt i ogoniant, yr hwn yw ei wîr flaen-ffrwyth a'i ddechreuad yn eu Heneidiau hwynt. Gwîr ſanctaiddrwydd yw'r gwŷſtl ſiccraf o ddedwyddwch tragwyddol, ac ſydd yn ein gwneuthur ni yn addas iddo, *Eph.* 1. 13, 14. *Col.* 1. 12.

Gan hynny oblegid bôd y cyfryw orfoledd, o annherfynol fawredd, mor ſiccr ac mor ddiogel, oni adawwn ni eu gyd ein cynghori i ymegnïo i'w geiſio ef, drwy rodio yn y ffyrdd ſanctaidd ſydd yn a wain atto? Sicer ydyw y gwneir telly, os oes gennym ddim crediniaeth yng ngair Duw, ddim cyfrif o'n llês ein hunain. Ai rhaid i'n Heneidiau ni fyw tros byth mewn Byd arall, ac oni ymegnïwn ni hyd eithaf ein gallu a'n diwydrwydd i'w gwneuthur hwynt yn ddedwŷdd tros byth yno? Ond ein Heneidiau ni ein hunain ydynt hwy? Ac onid ydynt hwy gan hynny yn haeddu ein gofal a'n cariad ni? *Os byddwn ni ſynhwyrol* a da, *ond er ein mwyn ein hunain y mae*, er ein dedwyddwch ein hunain? A c oes un ffordd arall i ni i'n gwneuthur ein hunain yn ddedwŷdd ond drwy ennill cariad Duw a bywyd tragwyddol? Onid ydym ni yn gweled fôd pôb cyſſur bydol yn fyr ac yn anſiccr?

anſiccr? maent yn diſlannu yn ein dwylo, ac yn darſod wrth eu harſeru. Y mae ein Cymmydogion a'n cydnabod yn meirw beunydd o'n hamgylch; llawer o'n Ceraint anwŷl a'n Perthynas a aethant o'n blaen ni yn barod, a ninnau ein hunain ydym yn bryſſur yn eu dilyn hwynt. Yr ydym ni yn union ar derſynau Tragwyddoldeb, yn ogwyddedig i ſiloedd o gleſydau a drwg ddamweiniau y rhai a allant attal ein hanadlau ni yn ddiſymmwth, ac yna ſe dderſydd am danom. Gan hynny o herwŷdd nad all fôd gennym ſiccrwydd o'r bywŷd hwn, nac o'i feddiannau: O gadewch i ni edrych am ſiccrwydd gogoniant tragwyddol; yr hyn drwy gynnorthwy Duw, a allwn ni ei wneuthur, hyd yn oed y tlottaf ar y Ddaiar, os daw i fôd yn wîr-ddwiol ac yn dda. Canys nid ydyw Duw dderbyniwr wyneb. Fe ſu Chriſt farw yn gyſtal dros dlodion a chyfaethogion; a'r rhai nid oes ganddynt etifeddiaeth ar y Ddaiar a allant fôd yn Etifeddion Teyrnas Nef, os byddant gyfoethogion o ffydd a chariad tuag at Dduw, *Iago* 2. 5. Ac i'm tŷb i ſe ddylai y rhai ſydd yn cael cymmaint o helbul a thriſtwch yn y bywyd hwn, gynhyrfu i ymgais ar ôl golud a gogoniant yn y bywyd a ddaw. Yno y ceiſt y *Lazarus* tlottaf ſil o weithiau ſŵy o ddiſyrrwch a gorfoledd, nag y mae un *Diſes* balch, neu y Glythion goludog, a'r Epicuriaid yn ei gael yr awr hon yn eu danteithion blaſus a'u Gwiſgoedd gogoneddus. Ac etto, ſe all gwîr obaith y gogoniant hwn lenwi meddwl Gŵr da a chymmaint o orfoledd, ag yr anghofia efe ei dlodi, ac ni wnâ gyfrif fôd mo'i ddioddefiadau yn haeddu eu cyffiybu i'r dedwyddwch y mae efe mewn gobaith am dano, ac ni newidiai efe mo'i helynt a'r Tywyſog mwyaf ar y Ddaiar, yr hwn ſydd ddieithr i'r gobaith hwnnw. Fel hyn yr oedd gyda'r Apoſtolion Sanctaidd a'u dilynwŷr, 2 *Cor.* 6. 10. 1 *Petr* 1. 6, 7, 8.

Fel hyn y darfu i mi ar fyr adrodd i chwi beth o ddedwyddwch y duwiol yn y Bŷd a ddaw: Ond ar y llaw arall yſtyriwch beth a fydd rhan y drygionus, yr hwn ſydd yn diyſtyru trugareddau Duw, a chynnygion ac addewidion yr Efengyl: y rhai hyn o'r diwedd a gwympant dan ei drwm Ddigoſaint ef a'i Ddialedd, ac yno y bydd rhaid iddynt aros yn dragywŷdd mewn tra-anoddef boenau Enaid a Chorph, a oſodir allan drwy y pethau mwyaf otnadwy, megis Tân a Brwmſtan, a'r Prŷf ni bydd marw bŷth, yr hwn ſydd yn cnoi ac yn brathu eu calonnau yn dragwyddol. Hwy a deflir i'r tywyllwch eithaf, lle mae wylofain, griddfan, a

rhingcian dannedd, heb y llëwŷrch lleïäf o obaith neu gyssur hyd bôb tragwyddoldeb. *Mat*.25.30,41,46. *Marc* 9.43. hyd ddïwedd y bennod; 2 *Thes*.1.7,8,9. Y rhai'n yw'r Geifr y rhai wedi eu gosod ar y llaw asswy sydd raid iddynt wrando y farn dosturus honno. *Ewch oddiwrthif rai melltigedig i'r tan tragwyddol a barottowyd i Ddiafol ac i'w Angylion.* Barn drom, ac etto yn dra-chyfiawn. Canys hwy *a giliasant* oddïwrth Dduw, ac a esceulussasant ei wasanaeth ef yma ar y Ddaiar, ac am hynny rhaid iddynt yn awr *gilio* o'i bresenoldeb ef, ym mha ûn ni ddichon eu meddyliau llygredig hwynt gymmeryd dim difyrrwch. Hwy a wnaethant fwy cyfrif o'r Dafarn nag o Dŷ Dduw; ac a gymmerasant fwy difyrrwch yn Gwledda ac yn Yfed, yn Rhuo ac yn Gloddest ym mysg eu Cyfeillion drygionus, nag yn addoli Duw yng Nghymmundeb y Saint; ni charasant hwy na gweddiau na moliant yng Nghymanfeydd ei Bobl, ac nid oedd dim meddwl ganddynt ar ddyfod i Fwrdd yr Arglwydd, er ei mynych wahodd atto; ac am hynny rhaid ydyw yn awr eu cau hwynt allan o'r fâth gynlleidfa Sanctaidd, ac oddïwrth y fâth oruchel a nefol orchwylion, i'r rhai y maent yn hollawl yn anghymmwys. Yr oedd llawer o honynt yn ymroi 'n fawr i *felldithio*, ac yn awr y daeth melldith arnynt: Y *Felldith Dduw* yr hon yn eu creulondeb a ddymunasant hwy yn fynych i'w Cymmydog, a syrthiodd yn awr arnynt eu hunain. Heb law hyn; oni ddarfu i lawer o'r Trueniaid halogedig hyn ïe alw am y felldith hon ar eu pennau eu hunain, yn yr iaith Uffernol honno *Melldith Dduw i mi*? A pha ryfeddod os caniatteir eu herfyniad, a'u bôd yn awr wedi eu barnu i'r Ddamnedigaeth yr oeddynt hwy fel hyn yn galw am dani? Gan *Ddiafol* yr arweinwyd ac yr hyfforddwyd hwynt, a chan ei Offer drygionus ef a'u trachwantau anifeiliaidd eu hunain; ac am hynny yn awr mae yn rhaid iddynt gael *Diafol a'i Angylion*, a phechaduriaid damnedig fel nhŵy eu hunain i fôd yn gy eillion iddynt mewn poenau, y rhai ydynt cyn belled oddiwrth dosturio neu gyssuro y naill y llall, a'u bôd yn hyttrach yn melldithio eu gilydd yn awr yn eu trueni, y rhai o'r blaen oeddynt yn temptio eu gilydd i bechu. Oh ymgyfarfod gresynol? Pan ddêl y Meddwon, y Putteinwŷr a'r Putteiniaid yno ynghŷd i'r ffaglau poethion hynny. Lle bydd ofer llefain am ddefnyn o ddwfr i oeri 'r Tafod. Ni cheir mo honaw: eu hôll bethau da a aethant heibio ac a ddarfuant; a choffadwriaeth eu hôll gyfeddach a'u trythyllwch nid yw 'n gwasnaethu ond i 'chwanegu

eu

eu poenau. Ac yr awr hon hefyd hwy a allant gofio fel y darfu i Ddduw drachefn a thrachefn alw arnynt, ond ni wrandawent; ni wrendŷ ynteu yn awr gan hynny mo'u llefain hwynt, wedi dyfod ing a chyfyngder arnynt, *Dih.* 1. 24. hyd y diwedd. Ac er iddynt grio allan yn erbyn eu cyteillion a chyhuddo y Cythraul, ac yn eu cynddaredd gablu Duw ei hûn, etto eu Cydwybodau hwynt a ddymchwelant yn y creulondeb mwyaf arnynt eu hunain, y rhai heb yn wactha i'r hôll rybuddiau a gawſont, a ddarfu iddynt drwy eu parhâd gwîrfodd ac anedifeiriol mewn pechod, eu ſoddi eu hunain yn y trueni hwn, o ba ûn ni chânt hwy fŷth ollyngdod. O air ofnadwy, *Tan tragwyddol! Poenau tragwyddol!* O fel y mae meddwl am hyn yn ſuddo ac yn torri eu calonnau, ac yn eu llenwi hwynt a'r erchyllrwydd a'r annobaith dyfnaf! *Pwy a all drigo mewn lloſgfeydd tragwyddol? Pwy a all?* Ac etto i'r pechadur damnedig *y mae'n rhaid*, er mai yn y modd gerwinaf ac anoddeſgaraf. Wedi iddynt orwedd fîl myrddiwn o flynyddoedd yn y lle poenedig hwnnw, etto nid oes un moment llai i ddyfod, mae tragwyddoldeb cyfan etto yn ôl. Y Prŷd ni fydd *byth* marw; y fflam dân ni ddiffodir *byth*. Nid ydyw Duw 'chwaith i'w gyhuddo o doſtrwydd yn hyn ei gŷd, o herwŷdd mai gwaith y pechadur ei hun ydoedd, ffrwyth ei ddêwis ei hun: Obſegid hwy a wyddaſant y ſoddai pechod hwynt i Uffern, ac etto hwy a anturient arno. Ac yn ddiau mae efe yn eu ſuddo hwynt yno mor narturiol ag y ſyrth y garreg ar y ddaiar. Ië ymma yn y bŷd y Balch a'r Cybydd, y Cenſigennus a'r dialgar, yr halogedig a'r trythyll ydynt yn ennyn peth o gynnyd Uffern yn eu Heneidiau eu hunain; a thra bônt yn dŵyn gyda hwynt yr unrhyw dymmer meddwl drygionus, rhaid i hynny etto eu gwneuthur hwynt yn dra-gofidus a thruain mewn Bŷd arall, bŷth cyhŷd ag y bo byw eu Heneidiau hwynt, a'r camweddau hyn yn glynu wrthynt, hynny ydyw, hyd bôb tragwyddoldeb. Na feied yr hwn fydd yn dwyn tân yn ei ſynwes ar Ragluniaeth Duw am wneuthur y tân yn boeth, pan ymdeimlo a'i loſgfa, ond beied ar ei ynfydrwydd a'i afreoli ei hûn: Ac felly y mae yn rhaid i bechaduriaid ſydd yn eu barnu eu hunain wneuthur o'u hanfodd.

Ac yn awr mynegwch i mi yn rhodd, Oni ddylech chwi gyda phob rheiwm yn y bŷd editarhâu allan o law am eich pechodau, a'u taflu oddiwrthych drwy eu casháu a'u ffieiddio, ac o hyn allan ymoſſod at yrfa o Sancteiddrwydd difrifol, fel felly y diangoch o'r holl drueni hwn a tygythir ar y rhai dry-

gionus, ac y byddoch cyfrannog o'r gogoniant a addewir i'r duwiol a'r da. Onid ydyw mîl o bunnoedd yn y flwyddyn yn haeddu llafur un dydd? Ac oni wna holl lawenydd y Nef yr hwn a bery byth bythoedd, gyflawn wobrwy am un diwydrwydd ni yng ngwaſanaeth Duw am fyr amſer y bywŷd hwn? Ac onid ydyw tragwyddol boenau Uffern yn ddigon er attal Dynion oddiwrth fuchedd anllywodraethus a phechadurus, er iddo fod yn fuddiol ac yn hyfryd iawn ymma dros ennyd fechan? Ond chwi a glywſoch o'r blaen brofiad helaeth, fod Buchedd Sanctaidd ie yn y Bŷd preſennol ym mhob modd yn fwyaf bûdd a hyfrydwch i ni. Yn ddiammau gan hynny y mae Gŵr da yn cael mwy melyſder a bodlondeb yn y ffordd i'r Nefoedd, nag y mae pechaduriaid yn y ffordd i Uffern. Ein Duw graſuſol ni ſydd yn trefnu i ni waſanaeth eſmwyth ac anrhydeddus, ac yn rhoi gwobrwyon gogoneddus: Ond y Cythraul ſydd Feiſtr creulon erchyll, ac yn goſod ei gaethweiſion ar y drygwaith gwaelaf, ac wedi hynny yn talu iddynt gyflogau tra greſynol, *Rhuf.* 6. 21, 22, 23. Pa un gan hynny a fyddwch chwi ai gwŷr rhyddion i Griſt, ynteu caethweiſion i'r Cythraul? Pa un a wnewch chwi, ai rhodio yn ffyrdd daionus Duw, y rhai a ddygant heddwch a chyſſur ymma ar y Ddaiar, a thragwyddol ogoniant yn y Nefoedd; ai yn llwybrau ceimion pechod, y rhai yn awr a ddygant driſtwch a a chwilydd a phoen, ac yn ôl hyn a'ch boddant chwi mewn trueni tragwyddol a phoen yn Uffern? Fel hyn y goſodwyd o'ch blaen chwi fywyd a marwolaeth, dedwyddwch a thrueni: Pa ddewis gan hynny a wnewch chwi? Fe debygai ûn nad oes fawr anhawſder yn yr achos i ŵr a defnydd ei reſwm ganddo, os gwna efe hetyd ddefnydd o honaw yn y pethau a berthynant i'w Enaid. Ychydig fyfyrio a waſnaetha 'r tro i ddwyn ar ddeall i ddynion, nad oes un rhelwm o herwŷdd pa ham y dylent hwy ddewis tlodi a gwradwydd, penyd a charchar (os gallant drwy oneſtrwydd eu gochel) yn hyttrach na Golud ac Anrhydedd, Eſmwythder a Rhydd-did. Ond mae yn ſicr gennif fôd fîl o weithiau lai rheſwm i ddŷn i anufuddhâu i Dduw ac i ddamnio ei Enaid ei hun bŷth, yn hyttrach na'i fodloni a'i waſnaethu ef, ac felly gwneuthur ſicrwydd o Iechydwriaeth dragwyddol. Gan hynny gadewch i mi etto attolygu arnoch gymmeryd y peth hyn i'ch yſtyriaeth, a meddwl yn ddifrifol beth ſydd fwyaf rheſymmol a mwyaf llefol i chwi eich hunain, ac yna dewiſwch yn gyfattebol. Ac mi a attolygaf i Dduw hyfforddi eich calonnau i wneuthur dewis

dewis mor bwyllog ag na bo i chwi fŷth achos i edifarhau o'i blegid, ymma nag yn y Bŷd a ddaw. *Amen.*

PEN. II.

Portreiad byr o fuchedd Sanctaidd, gyda rhai Hyfforddiadau byrrion tuag-at yr unrhyw.

OS gofynnwch chwi i mi yr awr hon ym mha beth y mae y Sancteiddrwydd hwn o'n buchedd yn gynwyſedig, i ba un y bûm i trŵy 'r amſer yn eich annog, hynny yr wyf yn gobeithio a ellwch chwi mewn peth meſur ei ddeall wrth edrych yn ôl ar y peth a ddywedais yn y dechreu, ac wrth ddal ſulw ar y peth a adroddais i ar hŷd fy ymadrodd oll. Etto er mwyn cynnorthwy i chwi, mi a'i goſodaf ger eich bronnau yn beth eglurach, er mai ar fyrr eiriau; fel nad ellir dilgwil amgen yn y Pappur bychan hwn.

Yn gyffredinol gan hynny (fel yr adroddais i y peth o'r blaen) Eich annog chwi yn unig yr ydwyf i fyw fel y gweddai i wîr Griſtnogion, yn ôl eich Adduned yn eich Bedydd, yn cadw pa un y mae eich Chriſtnogeiddrwydd chwi yn gynnwyſedig. Yn awr wrth eich Bedydd yr ydych chwi yn rhwym i gredu yn Nuw Tâd ac i ufuddhau iddo, a'r Mâb a'r Yſpryd glân. Rhaid i chwi gydnabod yn ddiffuant ac yn ddiragrith mai Duw 'r Tâd a'ch gwnaeth ac ſŷ 'n eich cadw chwi, mai Mâb Duw yw eich Prynnwr, a'r Yſpryd glân yw eich Sancteiddiwr, Arweiniwr a'ch Diddanwr. Ac yn gyttunol a hyn y mae 'n rhaid i chwi ymddwyn eich hunain yn gyſtal yn eich calon ac yn eich buchedd: Gan hynny rhaid i chwi ymwrthod a Diafol, y Bŷd a'r Cnawd, y rhai a fynnent eich tynnu chwi ymmaith oddiwrth Dduw, a rhaid i chwi yn ddiyſgog gredu Bynciau eich Ffydd Griſtnogawl, ac yn ofalus gadw gwynfydedig Ewyllys Duw a'u Orchmynnion holl ddyddiau eich bywyd. Eich ffydd a oſynnir mewn trefn i ufudd-dod: Canys onid ydych yn credu Efengyl Chriſt, nid ydych chwi debyg i ufuddhau iddo. Yn y ddau beth hyn gan hynny y mae Crefydd Chriſtion yn gynnwyſedig, i'r hyn y mae efe yn

rhwym wrth ei Fedydd, *ſef*, yn Credu y peth a ddatguddiodd Ieſu Griſt, ac yn gwneuthur yr hyn a orchmynnodd. Ar fyr, Chriſtion da yw efe yr hwn ſŷ'n credu yn ddiyſgog ei Gredo, ac yn ofalus yn cadw y Gorchmynnion.

Yr Athrawiaethau yr ydym ni i'w credu ydynt yn ddiau yn gyflawnach ac yn helaethach wedi eu rhoddi i lawr yn yr Yſgrythyrau ſanctaidd y rhai a'ſgrifennwyd gan wŷr wedi eu hyſbryd'liaethu gan yr Yſpryd glân, ac felly a ddyleid eu derbyn megis Gair Duw, a'u darllain yn ddiwyd a'u credu yn ddiſigl. Ond prif Bynciau y Ffydd Griſtnogawl a grynhoir ar fyr yn yr hwn a elwir Credo yr Apoſtolion, *Credaf yn Nuw Tâd*, &c. Hwn yr wyf yn gobeithio eich bôd yn gydnabyddus iawn ag e, gan ei fod mor fyr ac eglur, ac a adroddir beunydd yng ngwaſanaeth yr Eglwys; ac am hynny ni oſodaf fi mo'naw yn ehang ar lawr. A hwn hefyd yr wyf yn gobeithio eich bôd yn credu ei fôd yn dra gwir. Chwi a'i cymrech yn ddrwg, pe'r amheuwn i eich crediniaeth o'r Credo, heb yr hwn nid ydych i'ch cyfrif yn Griſtnogion. Ond gadewch i mi eich cynghori chwi i yſtyried yn fynych ac yn ddiſtrifol y gwirionedd mawr cynwyſedig yn y Credo, fel y galloch eu deall yn eglurach, a'u hoffi hwynt yn guach. Ac attolwg edrychwch ar fôd eich crediniaeth o honynt yn gadarn iawn ac wedi ei dyfn-wreiddio yn eich Eneidiau fel felly yr ymddanghoſo ffrwyth eich Ffydd yn Sancteiddrwydd eich Buchedd. Heb hyn, gwybodaeth noeth o'r Credo, a'i adrodd yn fynych iawn ni thâl fawr i ni. Canys, fel y dywedais i chwi, Ufudd-dod yw diben Ffydd. A'y mae holl bynciau ein Ffydd ni yn dra eglur yn tueddu i'n gwneuthur ni yn Sanctaidd ac yn dda, os gwnawn ni ond e dyfal Synnied, a'u hyſtyried yn dda I ddangos hynny ar fyrr eiriau *Os credwn ni mai Duw Tad holl alluog a'n gwnaeth ni a'r holl fyd*; Yna 'r ydym ni yn rhwym i'w garu a'i anrhydeddu ef, i'w addoli ac ufuddhâu iddo, megis ein gwneuthurwr, a'n cynhaliwr, yr hwn ſydd Holl-alluog mewn Nerth, Diddiben mewn Doethineb, Daioni, a phôb mâth ar Berffeithrwydd. Os credwn ni mai *Ieſu Griſt yw Mab Duw, a Phrynwr dynol ryw, yr hwn a fu farw droſom ac a gyfododd drachefn, ac a dderchafodd i'r Nefoedd, ac a ddaw odaſyno i farnu 'r byw a'r meirw*, ac a ganiatâ i'r holl Ffyddloniaid edifeiriol ac ufudd, *faddeuant o'u pechodau, a bywyd tragwyddol*, ond a farn y rhai drygionus i drueni tragwyddol. Rhaid i'n crediniaeth ni o hyn, ein harwain ni i wîr Edifeirwch a gwellhâd Buchedd, ac i

ufudd-

ufudd roi ein pwys ar drugareddau Duw, a haeddedigaethau Chriſt, am faddeuant ac iechydwriaeth. Ac os credwn ni, *mai ſwydd yr Yſprydglan yw ein Sancteiddio ni, a holl etholedigion Bobl Ddŵw*; yna ni a ddylem weddïo ar Dduw am ei Yſpryd Sanctaidd, a rhaid i ni ymroi ein hunain i'w gynhyrfiadau da ef, ac ymoſtwng i'w weithrediad ar ein heneidiau, fel y bo iddo ein Sancteiddio ni a'n gwneuthur yn ddiwiol, fel felly y byddom Aelodau bywiol *o Eglwys lan Gatholic* Chriſt. Ac yn yr Eglwys hon yr ydym ni yn rhwym i aros, fel felly *Yngnghymmun y Sainct*, y gallom fwynhau budd y Gair, y Sacramentau, a'r Gweddïau, drwy ba foddion y mae 'r Yſpryd glân yn gweithio grâs ynom, ac yn 'chwanegu yr unrhyw, hyd oni pherpheithier ef mewn Gogoniant tragwyddol i'r hwn y ceiſſ Gwŷr da eu derchafu, Enaid a Chorph, yn yr Adgyfodiad, fel y câdd eu Heneidiau hwynt aſael arno yn ebrwydd yn ôl eu marwolaeth.

Fel hyn y gwelwch pa fôdd y mae gwîr Grediniaeth yn arwain Dŷn i Sanctеiddrwydd Buchedd. Ac am hynny yn yr Yſgrythyr lân yr ydym ni yn cael fôd cymmaint o grybwyll wedi ei wneuthur am Ffydd, neu am grediniaeth yn Nuw a Chriſt. Hyn mewn llawer o leoedd ſydd wedi ei ardderchafu yn uchel, ac a ofynnir yn gaeth gennym, megis gwîr ſylwedd ein Dledſwydd; yn gymmaint ag y dywedir yn ſynych ein bôd ni i'n cyfiawnhau neu i gael maddeuant ar gyfrif ein Ffydd, ac i gael iechydwriaeth drwy Ffydd, a hyn ei gŷd yn bennaf fel yr wyf yn meddwl, oblegid mai gwîr Ffydd ſydd yn dwyn allan Ufudd-dod, ac yn dyfod ag un i fôd yn Ddiſgybl ufudd, cywir i Ieſu Griſt, ac felly mae yn ein gwneuthur ni yn addas i drugareddau Duw yn a thrwy ein Hiachawdwr bendigedig. Ond pan nad yw Ffydd yn dwyn allan ffrwyth Sanctеiddrwydd a Gweithredoedd da, nid yw o gyfrif yn y bŷd gyda Duw, ac ni leſia i ni, fel y gellwch chwi weled yn helaeth yn yr ail bennod o St. *Iago*, heb henwi un lle arall. Gan hynny chwi a wyddoch ein bod yn rhwym wrth ein Bedydd, nid yn unig i gredu holl Byrciau y Ffydd Griſtnogawl, ond hefyd i gadw Gorchmynion Duw, y rhai yr wyf i ſôn am danynt yn neſaf.

Yn awr, y Gorchmynion hyn hefyd a gynhwyſir yn eglur yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd; ac am hynny mae mwy o reſwm etto pa ham y dylech yn ddiwŷd eu darllain a'u haſtudio, fel y gwypoch ewyllys Duw ac y gwneloch ef. A'r hyn oll ſydd i ni i'w wneuthur, yr wyf i yn bwrw ei fôd yn gynnwyſedig

ſedig yn y deg Gorchymmyn, fel yr eglurir hwynt i ni, acy cymhellir arnom, gan y Prophwydi yn yr hên Deſtament, a chan ein Hiachawdwr a'i Apoſtolion yn y Newŷdd: Yn enwedig ym-Mhregeth ein Hiachawdwr ar y Mynydd, yn y 5. 6. a'r 7. Bennodau o St. *Mathew.* Ac am hynny darlleunwch yn fynych y Pennodau hyn droſtynt. Yno y cewch weled pa fath ddynion y dylai Diſgyblion yr Iesu fod, ſef fel eu Meiſtr, o Ysbryd addfwyn, goſtyngedig, llariaidd a llednais, pur a heddychol, trugarog ac ymmyneddgar, a'r cyffelyb. Y cyfryw rai a'r rhai'n y mae efe yn eu galw yn wynfydedig yn nechreu y Bregeth Neſol honno, a'r rhai'n yn unig ydynt hwy y rhai a wna efe yn dra-bendigedig gyd-ag ef ei hunan byth. Ond os mynnwch chwi gael Swm eich Dylêd tuag at Dduw a'ch Cymmydog, ſef y goſynnir yn y dêg Gorchymmyn, wedi ei olod allan ar fyr, cymmerwch hi yng-ngwîr eiriau Catechiſm yr Eglwys.

Fy nyled tuag at Dduw yw credu ynddo, ei ofni, a'i garu a'm holl Galon, a'm holl feddwl, a'm holl Enaid, ac a'm holl nerth; ei addoli; diolch iddo; rhoi fy holl ymddiried ynddo; galw arno; anrhydeddu ei Sanctaidd Enw ef a'i Air, a'i waſnaethu yn gywir holl ddyddiau fy mywyd.

Fy nyled tuag at fy Nghymmydog yw, ei garu fel fi fy hun, a gwneuthur i bôb Dyn megis y dewennychwn iddo wneuthur i minneu. Caru o honof, anrhydeddu, a chymmorth fy Nhad a'm Mam. Anrhydeddu ac ufuddhau i'r Brenin a'i Swyddogion. Ymddaroſtwng i'm holl Lywiawdwyr, Dyſgawdwyr, Bugeiliaid yſpryd ol, ac Athrawon. Ymddwyn o honof yn oſtyngedig, gan berchu pawb o'm gwell. Na wnelwyf niwed i nêb ar air na gweithred. Bôd yn gywir ac yn union ym mhôb peth a wnelwyf. Na bo na chas na digaſedd yn fy nghalon i nêb. Cadw fy nwyle rhag chwilenna a lledratta; fy nhafod rhag dywedyd celwydd, cabl eiriau na drwg-abſen. Cadw fy nghorph mewn cymmedroldeb, ſobrwydd a diweirdeb. Na chybyddwyf ac na ddeiſyfwyf dda na golud neb arall; eithr dyſgu, a llafurio yn gywir, i ennill fy mywyd, a gwneuthur a ddylwyf ymmha fuchedd bynnag y rkyngo bodd i Dduw fy ngalw.

Dymma eich Dledſwydd i chwi mewn lle cynnwys, yr hon a eliwch chwi yn hawdd ei chofio; ond yn enwedig erfyniwch ar Dduw 'ſgrifennu ei Gyfreithiau yn eich calon, fel y galloch yn ewyllyſgar ac yn gyſlurus ufuddhau iddynt yn eich Buchedd a'ch Ymarweddiad. Ac er cymmorth pellach i chwi, mi a helaethaf ychydig ar y pennaf o'r Dledſwyddau hyn,

hyn,yn enwedig hwnnw o garu Duw a'ch Cymmydog,ac felly y diweddaf â rhai hyfforddiadau byrrion a chyffredinol er mwyn cyfarwyddo eich camrau yn barottach ac yn ddianwadalach yn ffyrdd Sanctaiddrwydd holl ddyddiau eich Bywyd.

Caru Duw a'ch holl Galon a'ch Enaid, yw'r cyntaf a'r Gorchymmyn mawr; megis y mae ein Hiachawdwr ei hun yn dyſgu i ni, *Math.* 22. 37, 38. Hyn a wnâ i ni ufuddhâu yn haws ei holl Orchmynnion eraill ef. Canys os gwîr garu Duw a wnawn, ni a fyddwn ofnus iawn rhag ei anfodloni ef, a gofalus iawn i'w todloni ef yn ein holl ffyrdd. Ac yna 'rydym ni yn gwîr-garu Duw a'n holl Galon, pan garom ni ef yn fwy na'r holl bethau eraill yn yBŷd,yn fwy na Chyfoeth, Difyrrwch, Anrhydedd, Ceraint, na dim arall yr ydym ni yn ei fwynhâu, ie, yn fwy na 'n Heinioes; yn gymmaint ag yr ymadawwn ni a'r cwbl oll, yn hyttrach na cholli ffafr Duw, ym mha un yr ydym ni yn cyfrif fôd ein dedwyddwch pennaf yn gynnwyſedig. Hyn yr ydwyt yn cymryd ei fôd yn wîr Hanfod Crefydd, ac ydyw'r peth, heb pa un mae ein Hiachawdwr yn dywedyd i ni, na allwn ni fôd yn Ddiſgyblion iddo ef, *Math.* 10. 37, 38. Ond pan ddelom ni unwaith i'r dymmer ſendigedig hon, ni chawn ni mo'no yn beth anhawdd iawn i ni i'n gwadu ein hunain, a chymmeryd i fynu ein Croes, a dilyn ein Harglwydd a'n Hathro gan wneuthur yn dda a goddef yn ammyneddgar.

Gan hynny gadewch i ni erſyn yn ddifrifol ar Dduw drwy ei Yſpryd Sanctaidd ar weithio o hono y cariad hwn yn ein Calonnau. Ac at ein Gweddiau gadewch i ni 'chwanegu ein hymegniad diwŷd ein hunain; yn enwedig gadewch i ni fôd yn myſyrio yn fynych iawn ar holl ddaioni Duw a'i drugaredd, a amlygwyd i ni ac i'r holl Fŷd. Gadewch i ni yſtyried beth a wnaeth efe droſom ni yn barod, dros yr Enaid a'r Corph, a pha beth a addawodd efe ei wneuthur yn y Bywyd ſydd i ddyfod. Ac na rown i'n calonnau fŷth eſmwythdra, nes eu cyfan-gyſylltu a'r bŷthfendigedig Dduw megis ein daioni pennaf, a'n hunig ddigonol Gyfran. A cheiſiwn yn ddifrifol ei ffafr ef drwy'r Arglwydd Ieſu, y Cyfryngwr, yr hwn yn un-ſwydd a ddaeth i'r Bŷd, i'n dŵyn ni i ſuchedd o gyfeillach a Duw, fel y carem ef, ac y caëm ein caru ganddo, a byw bŷth gydag ef mewn cariad a gorfoledd. Ond cofiwch yn oeſtad mai ufudd-dod i Dduw, yw'r unig ſicer eglurdeb o wîr Gariad cadwedigol. Yr hwn a gâr Duw, a gashâ Pechod a Dryglioni. Gwnaed y Mâb y lliw a fynno o gariad ac an-

rhydedd i'w Dâd, nid ydyw efe yn gwir-garu mo honaw, oni chymmer efe bôb gofal dledus i'w fodloni ef.

Ac os ydych chwi fel hyn yn ddiragrith yn caru Duw megis eich Tâd, yna chwi a ellwch bôb amſer ymddiried yn gyſurus ynddo, a rhoi eich pwys a'ch hyder arno, yr hon ſydd Ddleſtwydd fawr arall, ac a ddŵg heddwch mawr a llonyddwch i'n meddyliau. *Eſay* 26, 3, 4. Tra byddoch chwi byw mewn ufudd-dod i orchymmynion Duw, mae i chwi hawl ſicr yn ei Addewidion ef, ac chwi a ellwch yn ddiogel roi eich pwys ar ei ddaionus Ragluniaeth ef, am gyflowndder o honynt. Gan hynny beth bynnag yw eich anghennion, eich peryglon, neu eich dioddefiadau, nac amheuwch Ragluniaeth Duw, ond diſgwiliwch yn ymarhous, a gwnewch eich dleſtwydd eich hunan, a byddwch ſicr, y bydd Duw yn ei amſer da, i'ch cynnorthwyo ac i'ch gwared chwi; efe a'ch hyffordda, a'ch cyſſura ac a'ch cadarnha chwi. Gadewch i'r holl brawf a gawſoch chwi hyd yn hyn o'i dirion drugaredd ef, eich rhwymo chwi i ymddiried ynddo cyhyd ag y byddoch byw. A chymmerwch ofal mawr, na bo i chwi fyth twgnach na thuchan yn erbyn Duw mewn un helbul yn y byd; pan gyfarfyddoch chwi a'r croeſau neu 'r colledion trymmaf, neu golloch eich Ceraint a'ch Cyfeillion anwylaf, dywedwch gyd-a *Job* Sanctaidd, *Yr Arglwydd ſydd yn rhoddi, a'r Arglwydd ſy'n dwyn ymmaith, bendigedig fyddo Enw'r Arglwydd.* Attolygwch i Dduw ddyſgu i chwi y wers ragorawl honno o Fodlondeb ymmhôb Cyflwr, *Phil.* 4. 11, 12, 13. Er y gellwch chwi fôd yn iſel ac yn dlawd yn y Byd, etto yſtyriwch, mae i chwi bob amſer achos i fôd yn ddiolchgar, ond nid oes un amſer achos i chwi i gwyno. Duw a ŵyr pa gyflwr ſydd orau i ni, a gadewch i ni ado iddo ef ddewis beth a gawn ni. Nyni y rhai nid ŷm yn haeddu dim ond digofaint a thrueni, a ddylem gydnabod mawr ddaioni Duw, ein bôd ni y tu ymma i Uffern. *Trugareddau 'r Arglwydd ydyw na ddarfu am danom,* a'n bôd ni yn mwynhâu y tippin lleiaf o gyflur. Meddyliwch mor dlawd a fu yr Arglwydd Ieſu er ein mŵyn ni, yr hwn nid oedd ganddo le i roddi ei Ben, ac a gadd a'i waſnaethodd o eiddo eraill; ac yn yr unrhyw Gyflwr gwael y bu 'r Apoſtolion fyw. Mae eich Cyflwr ſâl chwi yn eich rhyddhâu oddiwrth lawer o faglau a phrofedigaethau, ac oddiwrth lawer o ofalon a thriſtwch y rhai nid eill y Cyfaethogion mo'u gochel. Os ydych chwi yn gwîr garu Duw, a chennych dryſor yn y Nef, yr ydych chwi yn oludog iawn, er nad oes gennych

nac

nac Aur nac Arian. Nac ofnwch, na ddyry Duw i chwi ac i'r eiddoch Ymborth a Dillad, a thra bo hynny gennym, byddwn fodlon a diolchgar. Ië, bwriwn y gwaethaf, ſef y gallwn ni feirw o nëwŷn ac eiſiau bara (yr hyn ni ddigwydd i un ymmyſg Cant yn amſer heddwch a llawnder) etto os ein Heneidiau ni a fyddant wedi eu parottoi i fynd i'r Nefoedd, ac a gânt eu dwyn yno, ni chawn ni achos yn y bŷd i gwyno ymmha fodd, neu o ba Angau y byddom feirw. Mi a fûm ychydig helaethach yn hyn, er mwyn Pobl diodion, y rhai ydynt ry barod i fôd yn anfodlongar, ac i rwgnach o herwŷdd eu Cyflwr; er eu bôd yſowaeth yn ddigon mynych yn eu dwŷn eu hunain iddo, neu yn ei wneuthur yn waeth o lawer drwy eu bucheddau diofal anllywodraethus eu hunain, ſel y crybwyllwyd o'r blaen.

Ac etto cyn i mi fyned rhagof at eich Dyled chwi tuag at eich Cymmydog, gadewch i mi ar ychydig eiriau, eich hyfforddi chwi tuag at Addoliad Duw mewn Gweddïau a Mawl. Hon ſydd ddledſwydd a gymmhellir arnom ni yn dra mynych yn yr Yſgrythyr, ac a arferir gan bob gwr da, a goleuni nattur ei hun a ddichon ein hyfforddi ni atti. Mae arnom eiſiau beunyddiol am drugaredd Dduw, ac 'r ŷm ni beunydd yn archwaethu o honi, ac am hynny i'n dyſgir *i weddio bob amſer, ac ym mhob peth i roddi diolch.* I Dduw yn unig y mae yn rhaid i ni aberthu ein Gweddïau a'n Moliannau yn Enw Chriſt Ieſu, megis y mae efe ei hun yn dyſgu i ni, *Mat.* 6. 10. *Ioan* 16. 23. Nid rhaid i ni weddio ar Angylion na Seintiau, gan eu gwneuthur megis yn Gyfryngwŷr i ni, canys hon yw ſwydd neilltuol Chriſt, yr hwn a fu farw droſom, ac ſydd yn awr ar ddeheulaw Duw yn eiriol droſom, 1 *Tim.* 2. 5. *Heb.* 7. 25. Gan hynny rhaid i ni greaduriaid gwaelion, pechadurus, ddyfod yn oeſtad at Dduw yn Enw Chriſt, ac er ei fŵyn ef yn unig, gobeithio cael ffafr Duw a maddeuant pechodau, bôd yn gymmeradwy ganddo ein perſonau ni a'n gwaſanaeth, a chael o honom Iechydwriaeth i'n Heneidiau.

A'n Hiachawdwr ſydd yn ein dyſgu ni i addoli Duw mewn môdd pûr ac Yſprydol â'n Calonnau a'n Heneidiau, oblegid mai Yſpryd yw efe, a'i fôd yn chwilio calonnau Dynion, *Ioan* 4. 24. Am hynny nid allwn ni mewn un môdd, wneuthur Deiw neu Lûn Duw, na rhoi Addoliad Crefyddol i Ddelw, yr hyn ſydd yn union yngwrthwyneb i'r ail Gorchymmyn. Nid allwn ni chwaith ffurfio yn ein meddyliau un math ar lûn corphorol o Dduw pan weddiom arno, ond rhaid i ni feddwl

o honaw megis Yſpryd tra-phûr a gogoneddus, tra galluog, doeth, a daionus, yr hwn ſydd yn llenwi yr holl Fŷd â'i Bresennoldeb, a phob amſer yn agos attom, er nas gwelir a Golygon corphorol; ac yn clywed ein Gweddiau, ac a ŵyr ein hanghennion, ac ſydd yn alluog ac yn ewyllyſgar i'n cymmorth ni.

Ein Hiachawdwr a orchymynnodd i ni weddïo yn y dirgel, pan fôm ni yn unig, *Math.* 6. 6. Ac yno y dyſgodd efe i'w Ddiſgyblion pa fôdd y gweddient, ac a roddes i ni y Ffurf dra rhagorawl honno, yr ydym ni yn ei galw Gweddi yr Arglwydd, *Ein Tad yr hwn wyt yn y Nefoedd*, &c. Yr hyn ar y ſtordd, a ddichon ein ſiccrhau ni, fôd Ffurfiau o Weddiau yn gyfreithlon tawn ac fe all Gweddi yr Arglwydd wafnaethu am gynllun neu batrwm i'n hyfforddi ni yn ein holl Weddiau, ac ſydd ei hunan hefyd yn dra-addas i'w harferu ac i'w chyſylltu at ein Gweddiau eraill. Eithr nid yw gymmwys arfer y Credo a'r Dêg Gorchymmyn am Weddïau, megis y mae pobl druain at wybodol yn gynnefin o wneuthur; er bôd yn ddledus arnom eu myny'h gofio, a'u hadrodd, er mŵyn bywioccâu ein Ffŷdd, ac hyfforddi ein Bucheddau.

Ar bob achoſion, ac ymmhôb blinderau a thrallodion, gadewch i ni weddïo yn ddyfal ar Dduw, ac yn oeſtad ymbilio arno am drugaredd a chyſſur, yr hwn tydd bob amſer yn agos at y rhai a alwant arno mewn gwirionedd a phurdeb. Pe bae y Gŵr llawd yn ceiſio ymwared gan Dduw, mor ddiſrifol ag y mae efe gan ei Gymmydog goludog, dyna'r ſtordd ſiccraf y cai efe gyflawnu ei anghennion. A gadewch i ni hefyd dderchafel yn fynych ein Calonnau i fynu at Dduw mewn Diolchgarwch a Moliant, am ei holl drugareddau a'i ddaioni y mae efe yn ei ganiattâu i ni. Fel hyn y gall y Dyn tlottaf yn fynych roi ei ſeddwl ar waith pan fyddo efgyd a'i orchwyl yn y Gweithdŷ, neu yn y maes, neu pan fo efe yn ymdaith ar y ſtordd, neu yn hwylio ar y môr, ac ni rwyſtra hynny mo'i lafur, eithr ei oſod ymmlaen, ac a'i gwna yn eſmwythach ac yn ddiſyrrach. Ond byddwch ſicer o naillduo ryw amſer bob dydd tuag-at weddi arferedig.

Mae'n addas iawn dechreu y diwrnod a Gweddi at Dduw, cyngynred ac y cyfodom ni o'n gwlau; gan fendithio ei enw ef am ein cadwraeth a'n gorphwyſtra llonydd, gan ertyn ei rafuſol Bresennoldeb efgyd-a ni yr holl ddiwrnod, fel i'n cadwer oddiwrth bob drwg, yn enwedig oddiwrth bechod, y gwaethaf oll. Ac yn yr Hwyr, gwnawn hyn yn orchwyl di-

waethaf

waethaf i ni cyn i ni orwedd i lawr i gysgu, sef gorchmynnwn ein hunain yn ostyngedig i Dduw drwy Weddi, *Psal.* 92 1, 2.

Y mae hi 'n dra-defnyddiol i'r rhai sydd a Theuluoedd ganddynt, i gyssylltu ynghŷd Forau a Hŵyr mewn gweddi at Dduw, gan ddarllen rhyw gyfran o'r Air Sanctaidd; er mwyn pa amcan y mae llawer o Lyfrau da o Gresydd: ac er na bô ganddynt yr ûn o honynt, etto hwy a allant arfer y cyfryw rai o Weddiau yr Eglwys ag a sônt cyfaddas iddynt, ac a geir yn y Boreuol a'r Prydnhawnol Wasanaeth, ac mewn lleoedd eraill.

Cyn eistedd o honoch i fwytta, erfyniwch fendith Duw arnn, ac wedi i chwi dda fod telwch ddiolch am dano.

Ond heb law ein gwîr addoliad ymmysg y Teulu neu yn yr ystafell, ein Dledswydd fawr ni yw addoli Duw yng Nghymanfeydd cyhoeddus ei Bobl ef, y rhai ni ddylem ni mewn un modd ymwrthod a hwynt. *Heb.* 10. 25. Na oddefwch gan hynny mo'ch tynnu eich hunain ymmaith tan liw yn y bŷd, naill ai gan Bapistiaid neu Wahanwŷr, oddiwrth gyhoeddus addoliad Duw, megis y mae yn awr wedi ei sefydlu drwy Gyfraith yn Eglwys *Loegr.* Ond edrychwch ar gyrchu o honoch yn ddigellwair i'ch Eglwysi plwyfol, a hynny nid yn unig ar Ddyddiau gwylion, ond ar ddyddiau gwaith hefyd, pan gafloch gyfle ac ennyd. Yn fwy enwedig, edrychwch ar ddyfal gyrchu o honoch i'r Eglwys ar Ddŷdd yr Arglwydd, oni bydd rhwystr clefyd, neu ryw achos mawr fawn arall yn eich cymmell. Na adewch i'r esgus hwnnw mo'ch cadw o'r Eglwys, yr hwn ni chadwai mo'noch o'r Farchnad. Deuwch a chynnifer o'ch Teulu gyd-a chwi, ag a so possibl eu hepcor. Deuwch erbyn dechreu 'r Gwaïanaeth, ac arhowch yn llonydd hyd ei ddiwedd, heb redeg ymmaith cyn y Fendith, fel y mae llawer o Bobl ddiofal yn wrthun yn gwneuthur, fel pe bae yn llawen ganthynt ddïange allan, megis o Garchar. Ymddygwch eich hunain a phob parch dledus, mewn corph a meddwl, gan ystyried Mawrhydi y Duw hwnnw, ym mhresennoldeb pa un yr ydych yn sefyll, yng ngŵydd pa un y mae'r Angylion yn cuddio eu hwynebau. Gostyngwch ar eich gliniau bob amser ar eich gweddïau, o bydd cyfleusdra, neu sefwch o'r lleiaf. *Psal.* 95. 6. Uwch law 'r cwbl, edrychwch yn ofalus at dymmer eich Eneidiau, a chynnheliwch Synniad arswydus o'r Duw mawr ar ba un yr ydych yn gweddïo, a deliwch sulw ar bob peth a ddywedir, fel yr eloch ym

mlaen gyda'r Gweddiau, ac offrymmwch eich dymuniadau i Dduw; os amgen, er dywedyd o honoch lawer, ettto nid ydych yn gweddio dim. Gochelwch bob gwâg feddyliau gwibgrwydrus, hyd y bô poſſibl. Pan fyddoch yn uno yn y Gyffes o bechodau, cofiwch eich beiau neilltuol eich hunan, ac ymddaroſtyngwch yn iſel o'u herwŷdd: a byddwch yn ddiffuant yn ddiolchgar am holl drugareddau Duw, tra bôch yn moliannu ei enw; ac hraethwch yn ddifrifol am y Grâs yr ydych yn gweddio am dani. Yſtyriwch Air Duw gyda gofal a pharch pan ddarllenner ef o eiſteddle 'r Gweinidog, ac hefyd pan bregether a phan eglurer ef o'r Pulpud, fel y byddoch wrandawŷr dyfal, a gwneuthur-wŷr ffyddlon y Gair. Na eſceuluſwch yr Eglwys Brŷdnhawn, er byw o honoch lle na bo Pregeth. Catecheiſio a ddichon fôd mor ddefnyddiol i chwi, a hynny a ddylai fôd ymmhôb lle. Ac heb law hynny, chwi a glywch ddarllain yr Yſgrythyrau Sanctaidd, ac a gewch fudd y Gweddiau cyhoeddus.

Pan ddeloch o'r Eglwys, na threuliwch mo weddill y dŵrnod mewn difyriwch a ſegurŷd, llai o lawer mewn meddwdod a chwaryddieth, megis y mae gormod yn gwneuthur: Ond os oes Teulu gennych, treuliwch beth amſer gyda hwynt, yn gweddio, yn darllen Gair Duw, a rhyw Lyfr da; a bydded i Blant a Gwaſanaeth ddynion gael eu haddyſgu yn eu Catechiſm. Holwch hwynt yng-nghylch y peth a glywſant, fel felly y gwneler hwynt yn wrandawŷr mwy gwiliadwrus; a myfyriwch chwithau ar yr un peth, fel y byddai iddo dreiglo i'ch Calonnau. Gweithredoedd o drugaredd ac angenrhaid a ellir eu gwneuthur ar ddydd yr Arglwydd; ond er dim ar y ſo na chynnhwyſwch mo'noch eich hunain mewn dim Gorchwylion afraid, nac yn ymdaith ar y Brif ffordd, nac yn crwydro oddiamgylch i wneuthur ymweliadau ofer. Mae Duw yn caniattâu i ni chwe diwrnod yn yr Wythnos i'n gwaith ein hunain, gadewch i ni yn barod, ac yn ewyllyſgar, gyſſegru Dydd yr Arglwydd i'w waſanaeth ef.

Pan weinydder Sacrament y Bedydd, dyfal-yſtyriwch ef. Cofiwch eich rhwymedigaeth eich hun wrth gael ei dderbyn yn eich Mebyd, ac ymrowch i fyw yn gyſattebol iddi. Unwch mewn gweddi am fendith Duw ar y Plant a dderbynier i'r Eglwys y pryd hynny. A phan ddeloch a'ch Plant eich hun i'w bedyddio, edrychwch ar i chwi yn ddiragrith eu rhoddi hwynt i fynu i Dduw; a chyflwynwch hwynt i'w Waſanaeth ef, gan ymroi yn gadarn i'w dwyn hwynt i fynu yn ei ofn ef,

oi

os eiriach Duw eich einioes chwi a'r eiddynt hwythau, a gweddiwch yn ddifrifol ar dywallt o hono ei râs ef i'w Heneidiau. A'r rheini y safoch chwi megis mechniaſon droſtynt, chwi a ddylech wneuthur eich gorau tuag-at eu hadeiladaeth hwynt yng ngwybodaeth Duw a Chrefydd, yn ôl y Gorchymmyn a roddwyd arnoch, yn enwedig o bydd meirw y Rhieni, neu fyned o honynt yn eſgeulus. Ac yn rhodd gochelwch yr arfer ddrygionus ſydd gyffredinol mewn rhai mannau, *ſef*, yn ol bedyddio y Plentyn, y Cymmydogion a wahoddir, a dreuliant y rhan arall o'r diwrnod mewn Cyfeddach a Meddwdod; gan anghofio, ddarfod iddynt ond chwennyg yr awr hon ymwrthod. Chwantau yCnawd, a bod y rhai a lafaſant wrth y Bedyddfaen, a'r lleill oll, dan yr un rhwymedigaeth.

Pa bryd bynnag y gwahoddir chwi gan y Gweinidog i'r Cymmun ſanctaidd, na eſgeuluſwch yn ewyllyſgar mo'r Gwahoddiad: ond deuwch â Chalon ddiolchgar i gadw cof am gariad Chriſt yn marw dros bechaduriaid, yn ol ei Orchymmyn eglur, *Luc* 22. 19. Cymmerwch ofal am eich parottoi eich hunain drwy wir edifeirwch am eich holl bechodau a aethant heibio, a llawnfwriadau diyſgog drwy râs Duw ar ymwrthod yn llwyr-gwbl â'r unrhyw. Ac edrychwch ar fod o honoch mewn Cariad perffaith a phob Dyn, gan faddeu yn rhwydd i'r rhai a wnaethant ar fai i'ch erbyn, a chynnyg bodlondeb i'r rhai y gwnaethoch chwithau eich hunain i'w herbyn. Os yn ol hyn, ni byddant hwy wedi eu cymmodi, nid eich bai chwi, ond yr eiddynt hwy ydyw, am hynny ni's dichon mo'ch cadw oddiwrth y Sacrament. Na arhoſwch ymmaith drwy wneuthur lliw, fod arnoch eiſiau amſer i'ch parottoi eich hun. Canys Buchedd Sanctaidd gwaſtadol, yw y Parottoad gorau. Os ydych chwi yn deilwng i weddio, yr ydych chwi hefyd i Gymmuno. Na thybiwch mai i'r Cyfoethogion yn unig y mae Cymmuno. Mae Eneidiau'r tlodion mor werthfawr a'r cyfoethogion, a marwolaeth Chriſt mor berthynaſol iddynt; ac mae iddynt gymmaint achos i'w gofio, ac i ymgeiſio y Lleſau o hono. Onid oes gennych arian i'w offrwm gydag eraill, nac eſgeuluſwch eich offrymmu eich hunain i fynu i Dduw, ac fe fydd hynny yn werthfawroccach. Na chwynwch fod arnoch eiſiau Dillad, ac am hynny eich bod yn abſennol, o'r Eglwys ac o'r Cymmun hefyd: Ond edrychwch ar i chwi ddyfod yn y Wiſg Briodas a orchymmynir yn yr Efengyl, ſef, â Chalonnau goſtyngedig, ed feriol, a diolchgar, ac yna y byddwch Wahoddedigion a chroeſo iddynt i

twrdd

fwrdd yr Arglwydd. Er mwyn hyfforddiant i chwi, os nid oes gennych Lyfrau ar y Testyn hwn, etto darllenwch yn ddifrifol y Gwaianaeth am y Cymmun yn y llyfr Gweddi gyffredin, ac chwi a ellwch gael cymmorth mawr odiwrtho. Mae 'n addas iawn hefyd ymgynghori a'ch Gweinidog, yn enwedig y waith gyntaf y derbynioch chwi 'r Cymmun. Bid siccr gennych, mai pechod dra-echryslon ydyw, i chwi fyw y naill slwyddyn yn ol y llall, mewn esgeulusdra o'r Ddledswydd bwysfawr hon, ac mae yn arwyddoccâu dirmyg dirfawr ar Awdurdod ein Hiachawdwr, ac ar ei gariad annherfynol a'i addfwynder ef.

Cyn peidio o honof a chrybwyll am eich Dledswydd tuagat Dduw, gadewch i mi erfyn arnoch ymgadw yn ofalus oddiwrth y pechod cyffredin echryslon hwnnw o Dyngu. Cyfran o ddrygioni tra-amhwyllus ydyw, yr hwn nid yw 'n dwyn na difyrrwch na bûdd gyd-ag ê. Pan alwer chwi ger bron swyddog mewn achos pwysfawr, Chwi a ellwch yn gyfreithlon dyngu, *Heb.* 6. 16. Eithr cymmerwch ofal mawr ar dyngu y Gwîr, a dim ond y Gwîr; Os amgen, galw yr ydych y Gwîr Dduw i dystio Celwŷdd, ac yr ydych megis yn galw am ei ddïaledd ef arnoch eich hunain. Yn eich ymddiddan cyffredin, gochelwch bob mâth ar dyngu, pa un bynnag ai i enw Sanctaidd Duw, ai i un Creadur yn y byd. *Math.* 5. 34. *Iago* 5. 12. Na arferwch ddywedyd fel hyn, *Ar fy Enaid*, neu *Ar 'y Nghydwybod*, a'r cyffelyb, y rhai ydynt Lyfon mawrion, er bôd rhai yn eu mynych-arfer ar bôb achos coeg a sâl. Na wnewch gymmaint a chrybwyll heb achos nac ystyr am enw Sanctaidd Duw neu Grist: ond gadewch i'ch parch oddimewn gael ei wneuthur yn hyspys yn eich ymadroddion oddïallan.

Ac at hyn mi a allwn gyssylltu Cyfarchwyl difrifol yn erbyn y pechod o Regu, ymmha un y dïanrhydeddir Enw Duw yn fynych, pan fo Dynion yn dymuno i Felldith Dduw ddisgyn ar eraill, weithiau ar eu Plant a'u Ceraint nessaf, weithiau ar eu Cymmydogion, ac weithiau ar eu hanifeiliaid. Rhai Coeg-ddynion halogedig a ddymunant ddamnedigaeth i'r rhai y maent yn syrthio allan a hwynt, ïe, iddynt eu hunain. Ac ai nid cyffredinol ydyw clywed dynion yn eu llid, yn dymuno 'r Frêch, neu 'r Plâ, neu gebystr i'w Cymmydog, neu 'n peri i Ddiafol eu cym'ryd. Yn ddïau maent eu hunain yn ymddangos fel pe baent yn gythreulig, tra byddont yn chwythu 'r Iaith Uffernol hon, ac maent yn cymmeryd y ffordd union

i

i ddwyn pob mâth ar Felldith ar eu Heneidiau a'u Cyrph eu hunain, *Pſal* 109. 17, 18. Yr arfer ddrygionus hon ſydd yn deilliaw o ddiffyg gwîr ofn Duw yng-Nghalonnau Dynion, ac heſyd o eiſiau addfwynder a chariad y naill tuag-at y llall, ynghylch pa un yr wyf yn neſaf i adrodd ychydig eiriau.

Yn neſaf at garu Duw uwch law pob peth, caru ein Cymmydog fel ni ein hunain, yw Dledſwydd fawr Chriſtion, fel y mae ein Hiachawdwr yn dyſgu yn yr un lle hwnnw. *Math.* 22. 39, 40. A *Chariad* a ddywedir *ei fôd yn gyflawnder y gyfraith.* Rhuf. 13. 8, 9, 10. Nid oes dim mwy addas i Ddiſgyblion Ieſu Griſt, na byw mewn ſerch a chariad gydâ phob Dyn, gan wneuthur i eraill bob daioni ar a allom, eithr heb wneuthur mâ h yn y byd ar ddrwg i neb, Darllenwch 1 *Cor.* 13. Hyn a orchymmynnir yn dra-mynych, ac yn gaeth iawn yn yr Efengyl, ac ſydd yn nôd wrth ba un yr hyſpyſir pob Chriſtion, *Ioan.* 13. 34, 35. Hyn a'n gwna ni yn dra-thebyg i'n Harglwydd a'n Hathro bendigedig, yr hwn a aeth o amgylch yn oeſtadol gan wneuthur daioni, i Eneidiau a Chyrph Dynion; ie i'r rhai gwaethaf o Ddynion, ac i'w Elynion chwerwaf, y dangoſodd efe gariad mawr ac addfwynder. Ac yn hyn byddwn aſtud ar debygu iddo ef hyd eithaf ein gallu.

Os oes gennym wîr gariad i bôb Dŷn, yna y cyflownwn ni yn rhwydd ac yn barod yr holl Ddledſwyddau hynny ſydd arnom iddynt yn yr amryw leoedd a'r perthynaſau ymmha rai yr ydym yn ſefyll: y rhai nid ydwyf i fyned yma o amgylch i roi cyfrif neilltuol o honynt. Ond yn gyffredinol, Gwŷr a Gwragedd a ddylent garu eu gilydd yn dra-anwyl, ac aſtudio ar wneuthur Einioes y naill y llall yn ddedwyddol ymma, a'u Heneidiau yn ól hyn. Canys os ydynt yn byw mewn anghyttundeb a llidiawgrwydd, mae ganthynt Uffern ar y Ddaiar eŷd ag y bont byw, ac mae'n rheiwm iddynt ddiſgwil poenau tragwyddol yn Uffern pan fyddont feirw. Rhieni a ddylent garu eu Plant, a chymeryd gofal dledus am danynt, yn gyſtadl Enaid a Chorph: a Phlant a ddylent anrhydeddu ac ufuddhâu i'w Rhieni, a gwneuthur ymwared tddynt o byddant mewn angen. Rhaid i Feiſtred fod yn rhywiog ac yn addfwyn tuag-at ei Gweiſion; a rhaid i Weiſion fod yn ffyddlon ac yn ufudd i'w Meiſtred, ie i'r rhai anghyweithas a ſarrug. Rhaid i Ddeiliaid roddi ufudd-dod i hôll Orchmynion cyfreithlon eu Rheolwŷr, ac ymddaroſtwng yn ymmyneddgar i'r goſpedigaeth a wnelont; ac nid oes iddynt mo'r gwrthryfela i'w herbyn mewn modd yn y byd: canys mae wedi ei wahardd yn

dra-amlwg yn yr Yſgrythyr, a damnedigaeth wedi ei fwgwth i'r rhai euog, *Rhuf.* 13. 1, 2. Ac yn gyffredinol nid yw Teyrnfrad a Gwrthryfel, yn dwyn dim ond diniſtr a thrueni yn y Byd hwn, yn gyſtadl a'r hwn ſydd i ddyfod. Y Bobl a ddylent berchi a charu eu Gweinidogion, dilyn eu Cynghorion duwiol a'u heſamplau, ac edfryd iddynt Gynhaliaeth eyleduſi

Ar fyr, rhaid i ni ſôd yn ofalus ar ymgadw rhag gwneuthur cam a neb, o ba râdd neu gyflwr bynnag y byddo, naill ai yn ei Enaid neu yn ei Gorph, yn ei Olud neu yn ei Enw da: ond rhaid i ni fod bob amſer yn barod i wneuthur pob mâth ar ddaioni i bob dyn yn ôl ein gallu a'n cyfleuſdra. A thrwy hyn y mae i ni ddangos, ein bôd yn caru ein Cymmydogion fel ni ein hunain, drwy wneuthur a phob dŷn mor union ac mor gyfion, mor drugarog ac mor garedig, ag y mynem ni wneuthur a ni ein hunain. Hon yw Rheol fawr yr Efengyl, *Math.* 7. 12. Ac wrth y Rheol hon y dylem ni ein llywodraethu ein hunain yn ein holl ymddygiad tuag at eraill, wrth brynnu a gwerthu, ac yn ein holl Ymarweddiad. Hon ſydd Reol eglur a hawdd i rodio wrthi, ac ſydd gyfiawn ac uniawn, ehang iawn ac o fawr amgyffred; fel os deil dyn ſulw arni yn oneſt ac yn ffyddlon, nid rhaid iddo mor mynd ymmhell i geiſio cyfarwyddyd pa fodd i'w ymddwyn ei hun yn y rhan fwyaf o achoſion, rhyngddo ef a'i Gymmydog. A fynnwn i ſy enllibio a'm difenwi, ſy nhwyllo a'm ſommi, ſy nghuro a'm briwo, neu mewn un modd arall ſy ammherchi? Onid ê, na atto Duw i minneu wneuthur felly a neb arall. A fynnwn ni ſy niyſtyru a'm gwatwor am ſy meiau, neu am ſy nhlodi a'm haflwydd? Oni byddai well gennif mewn rheſwm ſy hyſforddi yn garedig, ſy nghynnorthwyo a'm dianghenu? Fel hyn gan hynny, Bydded i mi wneuthur i'm Cymmydog; ac yn ôl ſy ngallu, mewn addfwynder a gwîr garedigrwydd, hyſforddi yr aneallus, gwrthwynebu y drygionus a'r beius, cyſſuro 'r athriſt, rhoi ymwared i'r gorthrymmedig, a'r newynog, a dilladu 'r noeth. Ie rhaid i'r rhai ydynt mewn helynt wael, ſôd yn barod i gymmorth y cyfryw ag a fyddont mewn mwy angen na hwynt eu hunain. Nid yw'r Gwr ſydd yn byw wrth ei lafur wedi ei lwyr eſguſodi oddiwrth weithredoedd Cariad, *Eph.* 4. 28. Mae hatling y wraig weddw yn gymeradwy iawn gan Dduw; a chwpaned o ddwfr oer ni chyll mo'i wobr. Meddwl ewyllyſgar cariadus yw'r peth y mae Duw yn edrych arno yn bennaf, ac yn galw am dano, a hyn all tod gan y tlottaf, oni bydd ar ei fai ei hunan.

Ac

Ac nid yw ein Cariad a'n haddfwynder i'w ddangos tuag-at ein Cyfeillion yn unig, ond i'n gwîr Elynion eu hunain hefyd. Ni wafnaetha i ni dalu drwg am ddrwg, eithr bod yn aſtud i orchfygu drygioni drwy ddaioni. Os tarewir ni, nid oes i ni mor taro drachefn; os ymlennir a ni, a'n difenwi, nid oes i ni roi 'n ôl mo'r un ddrwg dafod drachefn, eithr naill ai drwy dewi, ai drwy attebion addfwyn ac arafedd ceiſio heddychu eu llidiawgrwydd. Canys nid yw y Rheol, i wneuthur ag eraill, megis y gwnelont a minneu, eithr fel yr ewyllyſiwn iddynt mewn rheſwm wneuthur a minneu; ac nid bai un arall am heſculoda i. Os gwna efe gam a myfi, nid oes i mi mo'r bôd yn farnwr yn f' achos fy hun, na chymmeryd arnaf ei ddial, ond mewn achoſion pwyſfawr, y gallaf ffoi at y Swyddog am ymwared. Ond nid allwn ni mewn modd yn y byd ddwyn câs na digaſedd yn ein Calonnau yn erbyn neb, er maint a fo ei ddrygioni, a'i elyniaeth tuag attom: eithr rhaid i ni doſturio wrtho a gweddïo droſto, ar i Dduw wellhâu ei feddwl ef. Os oes gennym fyth obaith trugaredd gyd-a Duw, a chael meddeuant o'n dledion, rhaid i ni faddeu i'r rhai a wnânt gam a ni, fel yr ydym yn dyſgu yngngweddi 'r Arglwydd, ac mewn amryw leoedd tra-eglur o'r Yſgrythyr. Darllennwch *Math.* 5. 44, &c. *Math.* 18. 21. hyd ddiwedd y bennod. *Rhuf.* 12. 14. hyd y diwedd. Rhaid i ni ddangos addfwynder a llarieidd-dra tuag-at bob dyn, a pheidio dywedyd na gwneuthur dim o'n gwirfodd i gyffroi un arall i ddigofaint: ac ni ddylem ninneu yn hawdd mo'r cyffroi, ond yn hawdd iawn heddychu a chymmodi. Greſynol iawn yw yſtyried, pa Fywoliaeth ofidus a thruenus y mae llawer o'r fâth dlottaf o bobl yn ei harwain, drwy eu bonllefain a'u hymſennu, ymgynhennu ac ymryſon y naill a'r llall: ac weithiau pan ni bo ganthynt ond yn brin Arian i brynnu Bara, hwy a'i taflant ymmaith mewn *holion* Cyfraith a helbul, yn unig o ran Croeſineb ac ymddial.

A phobl o'r radd ymma a ddylent yn enwedig ochel cenfigennu y rhai a fônt mewn gwell Cyflwr na hwynt eu hunain. Fe ddylai fôd gennym ni y fâth wir garedigrwydd ac ewyllys da i bob dyn, fel y byddai i ni orfoleddu oblegid eu hawddfyd hwynt, er ein bod ni ein hunain mewn adfyd; fel o'r tu arall y dylai fod gennym reſyndod mawr dros y rhai a fônt mewn blin-fyd, er ein bôd ni ein hunain mewn eſmwythfyd.

A gwilied y rhai ſyddont mewn eiſiau, rhag i'w hangen eu

rhoi hwynt ar un ffordd anghyfreithlon i'w cymmorth eu hunain. Yn Bendifaddeu, gochelwch ledratta dim er lleied a dalo. O feſur ychydig, mae 'n beth i'w ofni y dygwch chwi bethau mŵy, yn ol y Ddihareb, *a ddycco'r wy a ddwg a ſo mwy*, ac felly y dygwch chwi eich hunain i gwilydd a choſpedigaeth yn y Bŷd hwn, yn gyſtadl a'r hwn a ddaw. Y ffordd orau i ochel hyn, yw bod yn oeſtad yn ddiwyd yn eich galwedigaeth cyfreithlon, megis y mae 'r Apoſtol yn dyſgu yn y lle a henwyd o'r blaen, ſef, *Eph.* 4. 28. Onid ellwch chwi weithio, mae 'n gyfreithlon cardotta. Eithr na ymrowch mewn mŵdd yn y bŷd i'r fuchedd ddiog, ſwrth, anfuddiol hon o gardotta, os gellwch chwi gael bywoliaeth drwy neb rhyw ffordd gyfreithlon arall. Yr hwn ni weithio tra y gallo, nid yw deilwng iddo fwytta. Eithr yn hyttrach na lledratta na newynu, chwi a ellwch geiſio elufen gan eich Cymmydog. Ond na cheiſiwch mo'i dwyllo, gan fenthyccio yr hyn y gwyddoch na byddwch chwi fŵth debyg i'w dalu: Canys hyn ſydd ſommedigaeth eglur. Yn hyttrach gwnewch uniondeb, gan wneuthur eich angen yn gydnabyddus. Os ydych chwi yn ymddiried yn Nuw, ac yn gwneuthur eich dledſwydd, efe a ofala droſoch: Ac er eich bod weithiau mewn cyfyngder, etto eich angen a geiſſ yn oeſtad ei gyflownu. Ac i ragachub eich tlodi, gadewch i mi yn enwedig eich rhybuddio chwi yn erbyn y pechod cyffredin ac anifeiliaidd o Feddwdod, yr hwn ſydd yn dwyn yr aflwydd hwn a llawer eraill gyd-ag ê, ſel yr adroddais i chwi o'r blaen. Yn ddïau mae yn rhwyſtro pob daioni, ac yn arwain dynion i bob mâth ar bechod a thrueni. Y drygioni hwn ſydd yn gwneuthur mwy o Gardottion nag un achos arall. Gan hynny, os oes gennych ddarbod yn y bŷd dros eich Teuluoedd, dim cariad i Enaid na Chorph, gochelwch bob glothineb a gormodedd. Bwyttewch ac yfwch yn gymhedrol, ſel y bo gorau ar lês eich iechyd, ac yn eich gwneuthur yn gymhwyſach i waſanaeth Duw, ac i'ch galwedigaethau eich hunain.

Ac yn ddiwaethaf, gochelwch y pechod ffiaidd o Butreindra, yr hwn yn fynych iawn ſy'n cadw cwmni â meddwdod, ac mor fynych yn dwyn melldith Dduw, ar Gyrph dynion ac ar a feddont heſyd. Ac i'ch cadw eich hunain mewn diweirdeb, gochelwch feguryd, yn gyſtadl ag anghymedroldeb. A ffowch oddiwrth gyfeillach ddrwg ac anllywodraethus, lle 'r ydych yn debyg i gael eich hudo a'ch maglu: ac na wnewch cymmaint a'ch cynnwys eich hunain mewn neb rhyw feddyliau

a

a dymuniadau aflan, nac yn ſiarad diſlafrwydd nac mewn un math ár ymarweddiad ac ymddygiad gwammal. Er mwyn rhagflaenu pob drygioni o'r fáth hyn, Duw a gynhwyſodd Briodas, yr hon a ddywedir ei bód yn anrhydeddus ym mhawb; eithr Putteinwŷr a Godinebwŷr a farna Duw, *Heb.* 13. 4. Gan hynny y rhai ydynt yn y cyſlwr hwnnw, ymgadwant yn gaeth ac yn gywir i'w hadduned Briodas: A'r holl rai priodol ac ammhriodol, ymgadwant mewn Corph ac Enaid mor ddiwair ac mor bur ag y gallo Yſpryd Sanctaidd Duw gyfanneddu yn awr yn eu calonnau, ac y byddont hwythau addas i gyfanneddu ym mhreſenoldeb y Duw tra Sanctaidd byth.

Ac ſel hyn y darfu i mi ar fyr roi cyfrif i chwi ym mha beth y mae Bucheddſanctaidd yn gynnwyſedig, yr hon y mae yr holl Griſtnogion yn rhwym i'w dilyn yn ôl Athrawiaethau ein Hiachawdwr Bendigedig, ac yn ôl eu hadduned yn eu Bedydd, yr hon ſydd yn eu rhwymo hwynt i gadw ei Athrawiaethau, ac i ddilyn ei Eſampl ef, yr hwn ei hun a fu fyw yn yr unrhyw fodd Sanctaidd ag y dylgodd; ac a orchmynnodd i'r rhai oll *a ddyweaont eu bódyn aros ynddo ef, rodio megis ag yrhodiodd ef.* 1 Ioan. 2. 6. Mae gennych mewn ychydig eiriau ſwm y cwbl y mae 'r Eſengyl yn ei ddyſgu, tef y dylem ni *wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn ſóbr, ac yn gyfiawn, ac yn ddduwiol, yn y byd ſydd yr awr hon.* Tit. 2. 11, 12.

Ac yn awr gadewch i mi etto ddymuno arnoch yſtyried yn ddifrifol, a fu eich gofal chwi i fyw yn y cyfryw Sanctaidd a daionus fuchedd, ai nad dô. Ac ym mha beth bynnag y bo eich Cydwybod yn eich cyhuddo ddarfod i chwi eſceuluſo y dledſwyddau a orchymmynnodd Duw, neu wneuthur o honoch y pechodau a waharddodd ef, cydnabyddwch a chyffeſſwch yr unrhyw yn oſtyngedig o flaen yr holl alluog Dduw, gyda gwîr driſtwch duwiol am danynt, gan eiſyn yn oſtyngedig am Drugaredd a Maddeuant er mwyn Chriſt, yr hwn a fu farw ar y Groes dros bechaduriaid, a thrwy ba un y caiff pawb ar a gyffeſſant eu pechodau ac a ymwrthodant â hwynt drugaredd. Am hynny ymrowch chwi o hyn allan drwy ei râs ef i ymwrthod á'ch pechodau ac i wellhâu eich bucheddau, a gwnewch eich gorau ar gadw Cydwybodau didramgwydd tuag-at Dduw a Dŷn, heb eich cynnwys eich hunain mewn neb rhyw bechod gwybyddus, nac mewn eſgeuluſdra gwirfodd o neb rhyw wybyddus ddledſwydd. Na wrthddadleuwch yn erbyn hyn, gan ddywedyd, fôd yn ammhoſſibl arwain y cyfryw Fuchedd Sanctaidd: Canys miloedd yn y Bŷd, o bôb

Gradd a Chyfiwr, a wnaethant hynny ym mhôb Oeſoedd, drwy gynnorthwy Grâs Duw, yr hwn ni bydd fyth mo'i eiſiau arnoch, os chwi a'i ceiſiwch yn ddiſritol, ac a wnewch y gorau o honaw drwy ddiwydrwydd. Ac er y gall fôd yn y cyntaf beth anhawſder yn ymadel â ffordd ddrwg, etto bob dydgig yr eiſſyn haws, ec yna ni chewch chwi ddim mor felys ac mor hyfryd a Chreſydd a Rhinwedd.

Ac na thybiwch, attolwg, na pherthyn i Bobl Dlodion feddwl am fod mor greſyddol a duwiol; a bod hyn yn unig i'r rhai Goludog. y rhai nid oes ganthynt ond ychydig arall i'w wneuthur. P'am, oni ofelwch chwi ſydd Dlodion gymmaint am eich Encidiau eich hunain a'r Cyfoethogion, ac aſtudio i fôd yn ddedwŷdd yn gyſtadl a nhwythau? Fel hyn y byddwch chwi megis yn gyd-radd a hwynt, ïe yn ddedwyddach o lawer nag hwynt-hwy yn y byd hwn, oni bydd Daioni ynddynt yn gyſtal a Mawredd. Beth ſydd yn yr hyn oll a ddywedais i, nad all, ïe, y tlottaf ei gyflawnu o' bydd meddwl ewyllyſgar ganddo. Onid ellwch chwi garu Duw a'ch Cymmydog, a bôd yn ſobr ac yn ddiwair, yn addfwyn ac yn oſtyngedig, a gweddio ar Dduw a moliannu ei Enw, *&c.*? Pa beth? ond dyma'r ffordd orau o lawer i'ch cadw rhag Tlodi, neu i'ch gwared allan o honaw? Onid ydyw hi yn rhattach o lawer i fyw yn ſobr ac yn oneſt, na byw mewn meddwdod a phutteindra a'r cyfryw bechodau Diſrodus? Oni chŷſt i chwi fwy o lawer fyned i'r Gyfraith o ran Ymddial, na maddeu cam? Mwy a gŷſt cynnal un drygioni na dêg o Rinweddau. Ac mae 'n hygoel gennit fôd mwy o Deuluoedd yn cael eu dwyn i Dlodi wrth ryngu bôdd i'w Trachwantau, nag wrth ddarparu i'w Plant, pa niter bynnag fyddont. Onid yw 'n well o lawer dybygech chwi i chwi eich hunain a'ch Teuluoedd dreulio Dydd yr Arglwydd yng-ngwaſanaeth Duw yn gyhoedd ac yn ddirgel, nag yn atradloni eich amſer a'ch arian yn y Tŷ cwrwf? Prawf beunyddiol a ddengys nad Creſydd, eithr diffyg o honi ſydd yn gwneuthur Dynion yn dlodion ac yn reſynol eu helynt. Heb law fod gan y cyfryw Bobl dda Fendith a ffafor Duw, fel y dangoſais i yn barod, a chan hynny fe tydd ef yn ſiccr o otalu droſtynt hwy a thros yr eiddynt.

Ac attolwg na thybiwch y byddwch chwi cadwedig yn unig o herwŷdd eich bod yn dlodion: Canys os drygionus ac annuwiol ydych, chwi a fyddwch yn ſiccr yn druenus a greſynol yn y Bŷd neſſaf yn gyſtadl ac yn hwn. Nid oblegid ei fôd

fôd yn dlawd y bu *Lazarus* cadwedig, eithr oblegid ei fôd yn ŵr da a duwiol: Ac o'r tu arall, ni ddamnwyd *Dives* am ei fod yn oludog, ond o herwŷdd ei fod yn rhy drythyll ac yn falch, ac wedi ymroi yn hollawl i beſgu ac i ymdrwſſio ei Gorphyn gwael.

Gadewch i mi ym mhellach eich rhybuddio chwi yn erbyn dau neu dri o gamgymmeriadau peryglus, y rhai ydynt yn caledu nifer mawr o Ddynion yn eu pechodau. Gochelwch dybio mai digon i Ddyn fod wedi ei fedyddio a chadw ei Eglwys, a myned i'r Gweddïau a'r Pregethau, ac weithiau i'r Cymmun, a dywedyd ei Weddïau yn ddirgel, fod hyn yn ddigon i'w broſi ef yn Griſtion da ac i'w wneuthur yn ſiccr o Iechydwriaeth. Hyn oll ſydd dda iawn, ond ni waſnaetha hyn mo'r trô, oni bydd ein calonnau ni fellŷ wedi eu cwbl-Sancteiddio drwy Râs Duw fel y bo i ni garu Duw uwchlaw 'r cwbl oll, a golod ein calonnau ar orfoledd y Nefoedd, a charu ein Cymmydogion, a bod yn gywir ac yn union ym mhob peth a wnelom, bôd yn gymhedrol ac yn ddiwair yn ein hymarweddiad, fel y mynegwŷd o'r blaen. A hyn yw diben mawr Gweddïau, Pregethau a Sacramentau, ſef ein gwneuthur ni fwy-fwy yn Sanctaidd mewn calon a buchedd: Heb pa un y byddwn ni yn hyttrach yn waeth nag yn well o'u plegid. *Math.* 7. 21, 22, 23.

Na fyddwch cyn wanned a thybio y gellwch chwi fod yn gadwedig drwy grediniaeth dda yn unig, drwy eich Ffydd yng Nghriſt, ac ymddiried yn Nuw, heb Ufudd-dod i'w orchmynnion Er mŵyn Chriſt yn unig y byddwch chwi cadwedig, eithr ni cheidw ef neb ond y rhai a ufuddhânt iddo. *Heb.* 5. 9. A'r wîr ffydd gadwedigol yn unig, yw 'r hon fydd yn puro 'r galon, ac yn dwyn allan Ufudd-dod, fel y clywſoch chwi o'r blaen. A chan ddywedyd o Dduw i ni yn eglur na allwn ni mo'r bôd yn gadwedig heb Sanctaiddrwydd, Os byddwn ni mor ffôl neu ynfyd a choelio y gallwn ni fôd yn gadwedig hebddi, nid ymddiried yn Nuw yw hynny, eithr yn ein drwg-dyb ein hunain a thwyll y Cythraul. Ni a allwn ymddiried yn ddiogel yn addewidion Duw, eithr yna edrychwn ar i ni gyflawnu 'r ammodau, a dyfod i fôd yn gyfryw bobl oſtyngedig, Sanctaidd, ag yr addawodd efe er mŵyn Chriſt eu cydnabod a'u hachub.

Gochelwch hefyd gam-gymmeryd natturiaeth edifeirwch, fel pe byddai hi ddim ond ein bod ni yn ychydig yn drwm ac yn driſt o herwŷdd ein pechodau, a chrio ar Dduw am drugaredd,

garedd, ac yna fôd pob peth yn dda, er i ni barhâu i fyned rhagom yn ein hên ffyrdd. Eithr hwn sydd gam-gymeriad tra-pheryglus. Canys nid yw dŷn fyth yn gwîr-edifarhâu hyd oni ymwrthodo ef a'i bechod a chyfnewid ei fuchedd: Pan ddêl y Meddwyn i fôd yn sobr, a'r Gŵr halogedig yn ddefosionol Addolwr Duw, a pharhau felly. Gwir Edifeirwch sydd yn newid calon a buchedd y pechadur.

Ac yn ddiweddaf, na thybiwch mai digon yw ymwrthod a rhai pechodau a chadw eraill; gwneuthur rhai dledswyddau da ac esgeuluso eraill, ac yna eich esgusodi eich hunain gan ddywedyd mai eich *gwendid* chwi ydyw. *Nid oes neb heb ei wendid, a hwn yw fy un i.* Felly y dywed y Meddwŷn a'r Putteiniwr, ac felly y dywed y Gwr digllon pan dyngo neu rego, neu pan roddo efe Dafod drwg. Eithr y cyfryw bechodau ag a wneir yn erbyn gwybodaeth a Chydwybod, ac y parhaêr ynddynt o amser i amser, pan gaffom egwyl i feddwl ym mlaen llaw ac i'w rhagflaenu hwynt, mae y rhai'n i'w cyfrif megis pechodau gwirfodd, ac nid megis gwendid. Yn enwedig y cyfryw bechodau dirfawr a Meddwdod, Putteindra, mynych-dyngu neu ddywedyd celwŷdd a'r cyffelyb, nid ydynt i'w cyfrif megis gwendid. Yn ddiau pa bechod bynnag y bo dŷn yn ei garu ac yn dadieu drosto, ac hefyd yn ei gynnwys ei han ynddo, nid gwendid pur ydyw eithr troseddiad gwirfodd. Mae Gwr da yn cashâu pob pechod megis clefyd, ac yn ymegnio, yn gwilio ac yn gweddio, yn ei erbyn. Mae efe yn cashâu pob gau lwybr, a chantho barch i holl Orchmynnion Duw. Rhaid i wir Gristion fod yn wr da didwn, yn gyfan-gwbl oll. Mi a welaf mai peth mawr ydyw hi gyda nifer o bobl, nad ydynt yn gwneuthur cam â neb, ac nad oes gasineb yn ei calonnau, gan hynny maent yn eu tybied eu hunain mewn cyflwr da tuag-at Dduw. Ond er bod hyn yn un rhan dda o'n dledswydd ni, etto nid yw ond rhan o honi. Rhaid i ni hefyd edrych rhag i ni wneuthur cam a'r Holl-alluog Dduw ac a'n Heneidiau ein hunain, gan osod ein calonnau yn bennaf ar y Byd hwn, drwy esgeuluso ei Addoliad a'i Wasanaeth, drwy fyw mewn gormodedd neu aflendid neu neb rhyw bechod gwybyddus arall. Rhaid i ni fod yn dduwiol tuag at Dduw, yn gywir i'n Tywysog, yn gyfiawn ac yn gariadus tuag at ein Cymmydog, yn ostyngedig ac yn sobr, ym mhob modd yn sanctaidd ac yn dda, os profwn ni ein bod ein hunain yn Gristnogion mewn gwirionedd. Yr hwn o'i wirfodd a droseddo mewn un Pwngc ac a'i cynnhwyso ei hun yn hynny,

hynny, ſydd mewn effaith yn euog o dorri'r holl Gyfraith: Canys mae eſe yn dirmygu awdurdod Duw; ac os cyferfydd ef â'r un brofedigaeth, eſe a wnâ neb rhyw bechod arall. Ac ſel y dywedir yn wîr ac yn gyffredinol yn yr achos yma, un bràth er na bo ond â chyllell Pin-yſgrifennu a all archolli dŷn mor farwol, a phe gwneid ef ugeinwaith a Chleddyf; felly caru un pechod ac ymhyfrydu ynddo a all ddamnio Enaid Dŷn cyſtadl a mil. *Iago* 2. 10.

Wedi i mi ſel hyn ar fyr ymegnïo i ſymmud eich gwrthddadleuon a'ch Camgymmeriadau, Yr wyf fi yr awr hon etto yn y lle diwaethaf, yn dyfod i daer-gymmell fy Annogaeth, ar ymroi o honoch yn ddifrifol ac yn ddïyſgog i daflu ymmaith bob pechod, a'ch cyflwyno eich hunain yn gwbl i arwain y cyfryw Fuchedd dduwiol, gyfiawn, a ſobr, ag yr ydych chwi yn rhwym iddi wrth eich Bedydd Chriſtnogawl. Os ydych chwi mewn ymdrech a chwi eich hunain, pa un a wnewch chwi ai ymroi yn gwbl at hynny, ai peidio, edrychwch attolwg dros y Rheſymmau a oſodwyd ar lawr o'r blaen, a dwyſyſtyriwch hwynt yn eich meddyliau; ac yna ficcr ydyw na ellwch na chydnabyddoch, Nad ydwyf yn annog mo'noch i ddim, ond yr hyn ſydd dra-uniawn a rheſymol, ac ym mhob ſtordd er y daioni mwyaf i chwi eich hunain. Ac os gorfuwyd chwi fod y peth hyn felly, yna ewch rhagoch allan o law i'r llawn-fryd Duwiol hwn, heb odechial nac oedi. Pwy cyntaf y gwneloch hyn, diogelaf ydyw, a gorau ar eich llês. Nad ewch ym mlaen mewn pechod yr amſer preſennol, drwy wneuthur lliw o edrfarhau yn ol hyn, pan eloch yn hŷn, neu yn glâf, ac agos i farw. Na oedwch mo achos mawr eich Bywyd hyd ddiwedd eich dyddiau, pan nid ydych chwi yn ſicer o amſer neu allu, neu o gynnorthwy Duw, neu o fod yn gymeradwy ganddo. Na ddadleuwch mo eſampl y Lleidr ar y Groes: canys nid oedd ei gyflwr ef debyg i'r eiddoch chwi, y rhai a gawſoch hîr fwynhâd cynngion gràs a thrugaredd. Os yn awr o'r amſer preſennol ymma allan y trowch chwi at Dduw yn gyfan gwbl ac yn ddiragrith, nid oes mo'r achos i chwi i anobeithio am ei drugareddau, pa nifer neu faintioli bynnag a fu eich pechodau: ond os chwi a barhewch etto mewn pechod, gan ryfygu ar drugaredd Duw rhag llaw, mae i chwi achos cyfiawn i ofni, y gall y rhyfyg anturus hwn, a'r camarfer ofnadwy o râs Duw, ddibennu yn eich tragwy, ddol ddiniſtr chwi a'ch damnedigaeth.

Eithr os ydych chwi yn ewyllyſgar yr awr hon i gymmeryd

yn bryſſur yr Ymroad a'r Llawnfryd hwn mewn llaw, gadewch i mi ar ychydig eiriau, eich hyfforddi chwi ym mhellach, pa fôdd y mae i chwi ei wneuthur yn gadarn ac yn barhaus, ac y bo i chwi gael eich nerthu yn orau i gyflawnu yr unrhyw.

(1.) Ac yngyntaf, mi a'ch cynghorwn chwi i gymmeryd yr odfa gyflëus neſſaf i gadarnhau y Llawnfryd Sanctaidd hwn wrth fwrdd yr Arglwydd. Yno parchus-adnewyddwch eich Addunedau fedyddiol. Cyflwynwch a rhowch chwy-chwi eich hunain i fynu i Dduw 'r Tâd, y Mâb, a'r Yſpryd glân; gan ymwrthod â Diafol, y Bŷd, a'r Cnawd, ac â'r holl ffyrdd drygionus y mynnent hwy eich tynnu chwi iddynt, yn lwy enwedigol y pechodau hynny, y rhai y buoch chwi o'r blaen euoccaſ o honynt. O hyn allan, Cymerwch yr Arglwydd Ieſu a'ch prynnodd chwi â'i waed, am eich unig Arglwydd a'ch Athro, i'ch llywodraethu drwy ei Yſpryd a'i Gyfreithiau, fel yr ydych chwi ſŷth yn dymmuno ac yn gobeithio cael bod yn gadwedig drwy ei Farwolaeth a'i Adgyfodiad ef. Ac arferwch yn fynych gofio y Rhwymedigaeth parchus hwn, cyngngynted ag y darfu i chwi ei wneuthur: fel y bo iddo gael ei rym a'i waith dledus arnoch, pan fyddoch dan brofedigaeth i wyro at neb rhyw arfer ddrygionus drachefn. Ail hecrhewch yn aml y rhwym hwnnw rhwng Duw a'ch Enaid eich hun; ac yn enwedig adnewyddwch ef drwy fynych ddiſgwil wrth Dduw yn y Cymmun Sanctaidd, gan geiſio yno râs a nerth ganddo ef, i rodio yn ddiyſgog ac yn ddianwadal yn ei ffyrdd Sanctaidd ef.

(2.) Eithr hynny a'm dŵg i at ail hyfforddiad, na ddylech chwi mo'r ymroi i hyn oll, gan hyderu ar eich nerth eich hun, eithr mewn goſtyngeiddrwydd rhoddi eich pwys ar râs Duw, yr hwn y mae ete bob amſer yn ewyllyſgar i'w gyfrannu i'r cyfryw rai ag a'i ceiſio yn ddifrifol yn y ffordd a oſodod ete, drwy ddledus ddiſgwil wrth foddion Grâs, y Gair, Gweddi, a'r Sacramentau. Gan hynny fel y bo amſer cyfaddas gennych, deliwch fulw yn ddyfal ar ddarllain a gwrando ei Air ef, *a chuddiwch ef yn eich Calon, fel na phechoch i'w erbyn.* A byddwch fawrfrydig mewn Gweddi ar Dduw ar roddi ei Yſpryd Sanctaidd i chwi, drwy ei fâb Ieſu, yr hwn yn nerthol a eiriol droſoch, ac a wna 'n dda ei Addewidion, i Ymbilwŷr goſtyngedig a defoſionol, *Luc* 11. 13. *Ioan.* 16. 23, 24. Pa bryd bynnag y byddoch mewn perygl, ac yn cael gofod arnoch gan

neb

neb rhyw brofedigaeth i bechu, neu eich bod yn hŵyrfrydig i'r hyn ſydd dda, y pryd hwnnw yn enwedig gweddiwch am ſywiol a nerthol Ras, a'ch Gweddiau ni byddant ofer.

(3.) At eich Gweddiau, angwanegwch ddyſal wiliadwriaeth drofoch eich hun bob amſer, ym mhob lle, ac ym mhob Cyfeillach. Gwiliwch ar eich meddyliau, eich geiriau, a'ch gweithredoedd. Mae Satan yn oeſtad yn diſgwil i'n twyllo ni, ac mae llawer o faglau a pheryglon yn ein holl ffyrdd ni, ac mae gennym Naturiaethau llygredig a Chalonnau twyllodrus, ac am hynny anghenrhaid i ni fod yn wiliadwrus iawn, i ochel pob achlyſur o bechod, hyd y bo poſſibl, ac i'w gyfarſengi yn y dechreuad cyntaf. Yſtyriwch ymmlaen llaw pa brofedigaethau yr ydych yn debyg i gyfarfod â hwynt, ac ymarfogwch yn erbyn y rhai nid alloch eu gochel. Na redwch o'ch gwirfodd i Berygl, yn enwedig, gochelwch Gyfeillach ddrwg, drwy ba un y tynnir llawer yn ôl i'w hanllywodraeth cynneſin. Na arweinier chwi ymmaith drwy eu Cyngor neu 'u Heſamplau, ac na lwfrhaër chwi drwy eu barn a'u gwatwor hwynt. Ymarferwch yn fynych o edrych yn ôl ar eich Gweithredoedd, ac os tynnwyd chwi i neb rhyw bechod gwirfodd, na wnewch Yſgafn-beth o honaw, nac etto anobeithio o Faddeuant, os gwîr-edifarhewch. Gan hynny, yn bryſſur ac yn ddifrifol ymwnewch a Duw drwy wîr edifeirwch, gan erfyn maddeuant er mwyn Chriſt, ac ychwaneg o Râs i'ch cadarnhau a'ch cynnorthwyo. Adenwyddwch eich Amcanion o wellhâd Buchedd, a gofodwch eich Gwiliadwriaeth yn gaethach o hyn allan.

(4.) I'ch bywioccâu ac i'ch rhwymo i'r Wiliadwriaeth hon, Cofiwch fod yr holl-alluog Dduw yn oeſtad yn breſennol gyd-a chwi, ac yn craffu ar eich holl ffyrdd, ac yn ymhyfrydu yn fawr yn eich Duwioldeb a'ch Sanctaiddrwydd, ond ſydd o olygon purach nag yr edrych ar yr anwiredd lleiaf drwy ddim bodlonrwydd. Gan hynny, rhodiwch yn oeſtadol megis ym mhreſennoldeb y Duw Sanctaidd hwn, pa un bynnag ai ar eich pen eich hun ai mewn Cyfeillach y byddoch.

(5.) Cofiwch yn fynych, pa mor agos i Fŷd arall yr ydych yn ſefyll, a pha gyfrif a fydd raid i chwi ei roddi i Dduw, o'ch holl Weithredoedd a wnaethpwyd yn y Corph; a byddwch fyw telly yr awr hon, fel y bo mwyaf cyſſurus i chwi yn amſer

Marwolaeth a Barn. Pan ſo diſyrrwch a mwyniant pechod yn eich llithio, cyffelybwch hwynt â'r Gorfoledd tragwyddol y difuddiant hwy chwi o honaw, ac â'r Penyd tragwyddol y maent yn eich arwain iddo. Myfyriwch a ddarfu i neb rhyw ddyn erioed wrth bechu yn erbyn Duw, ennill rhyw beth ſydd well na'r Net, neu a dâl fyned i Uffern am dano. Bydded Tragwyddoldeb yn fawr iawn yn eich meddyliau, a Gwagedd diflannedig y Byd a fydd o gyfrif bychan gyd-a chwi. Dwyſyſtyriwch yn fynych y Geiriau pwyſ-fawr hynny o'r eiddo ein Hiachawdwr Bendigedig, *Pa leſtad i Ddyn os ennill yr holl Fyd a cholli ei Enaid ei hun? Neu pa beth a rydd Dyn yn gyfnewid am ei Enaid?* Marc 8 36, 37.

Yn ddiweddaf, yn lle 'chwaneg o Hyſſorddiadau, gadewch i mi eich cynghori chwi i'ch gwneuthur eich hun yn gydnabyddus a'ch Gweinidog; ac i ymgynghori ag ef ym Mherthynaſau mawrion eich Enaid, fel y mae Gwŷr yn gynnefin o wneuthur a'r Cyfreithiwr a'r Phyſſygwr, mewn achoſion perthynaſol i'w Cyrph a'u Meddiannau. Na thybiwch mai digon yw gwrando ei Bregethau ef ar gyhoedd; eithr cymmerwch Gyngor ganddo ef yn ddirgel, ac agorwch iddo ef gyflwr a helynt eich Enaid, cyn belled ag y gallo efe roddi i chwi y cyfryw Hyſſorddiadau ag ydynt fwyaf cyfaddas i'ch Cyflwr. Hyn yn enwedig a ddylech chwi ei wneuthur, pan eloch chwi gyntaf i gychwyn ar Fuchedd Sanctaidd, a phan ddyneſoch chwi eich hun gyntaf i'r Cymmun Sanctaidd; neu pan fyddoch dan neb rhyw amheuaeth ddirfawr, ac aflonyddwch meddwl; neu yn cael eich cythryblu gan brotedigaethau blinion, o'r naill fâth neu 'r llall; neu pan oſoder arnoch gan y cyfryw rai ag a fynnent eich tynnu chwi oddiwrth ein Heglwys ni, naill ai i Bapyddiaeth, neu i neb rhyw Sect arall yn ein plith ni. Yna yn ebrwydd ymgeiſiwch a'ch Gweinidog; Ac yn yr Achoſion hyn neu 'r cyfryw, cymmerwch eich hyſſorddi ganddo ef, a byddwch ſicr o ddilyn ei Gyngor iachus, a dymunwch ei Weddiau ef ar Dduw droſoch. Mi a wn mewn Plwyfi mawrion, na ddichon Gweinidogion gael hyſpyſtrwydd neilltuol o bob Dyn; etto y rhai oll a wyddant faint a dâl Eneidiau, a'r pridwerth a roddwyd droſtynt, a fyddant barod i edrych at y rhai gwaelaf o'u Pobl, ar a'u dyneſſant eu hunain attynt am Gyngor a Chyſſur, ac a ymorfoleddant o herwŷdd pob Cyfleuſdra a gaffont i ddechrau Anrhydedd a Hawl eu Hiachawdwr, a daioni yr Eneidiau gwerthfawr a orchmynnwyd dan eu Gofal hwynt.

Ac

Ac fel hyn y darfu i mi mor eglur ac mor gyflawn ag y gallwn ni yn iawn mewn lle mor gynnwys, eich hyfforddi chwi yn y ffordd Sanctaidd honno ſydd yn arwain i ogoniant tragwyddol; ac a ddangolais i chwi pa Reſwm mawr ſydd i chwi i rodio yn y ffordd honno, ac i barhau ynddi hyd y diwedd. Ac i'r rhai a ddymunent Hyfforddiadau helaethach, yn neſſaf at yr Yſgrythyrau Sanctaidd (y rhai yr ydwyf yn dymuno arnoch eu darllain yn aml gyd-a goſtyngeiddrwydd a difrifwch, yn enwedig y Teſtament Newydd) yn neſſaf attynt, meddaf, mi a'ch cyteiriaf yn unig at y Llyfr duwiol tra-defnyddiol, a elwir, *Holl Ddledſwydd Dyn.* Ac mi a ddymunwn o ddifrif calon, ſod pob Teulu tlawd yn y Devrnas, wedi darparu iddynt un o'r Llyfrau hynny, ynghyd-a Bibl a Llyfr Gweddi Cyffredin, y rhai oll a ellid eu cael er ychydig arian; gan hynny greſynddod mawr a fyddai eu bod yn un lle yn ddeffygiol. Er yſywaeth, y gwn i, ſod llawer Teulu o Bobl dlodion, lle na fedr neb o honynt ddarllain, ac felly Llyfrau ydynt annefnyddiol iddynt. Eluſendod mawr gan hynny a fyddai hi, i Feiſtred tiroedd goludog ac i Foneddigion, edrych at roddi plant eu Tenantiaid a'u Cymmydogion tlodion, allan i'r Yſgol, ac wedi hynny rhoi iddynt o'r hyn lleiaf Fiblau yn rhâd, fel y derchafer gwybodaeth o Dduw a Chreſydd yn eu myſg; yr hyn a fyddai er mawr ddaioni a lles i'r Eglwys a'r Deyrnas. Canys er gwneuthur o opiniwnau ymmennyddgla'a gau Egwyddorion, Ddynion yn feilchion ac yn wargaledion, ac yn drafferthus i'w Llywiawdwŷr, etto Gwybodaeth iachus, a gwîr Dduwioldeb, a wneiff Ddynion yn oſtyngedig ac yn addfwyn, yn llonydd ac yn dangnheddyfol; yn Ufudd i Swyddogion a Gweinidogion, yn llawn Cariad i'w Cymmydogion, ac yn barod i bob Gweithred dda. Ac mae yn ddiogel gennif mai cynnydd y Dymmer wîr Grefyddol hon, a fyddai un o'r Bendithion mwyaf a ellid ei rhoddi ymma ar y Ddaiar, ac a ſefydlai Deyrnaſoedd ac Eglwyſi, Trefydd a Theuluoedd mewn Tangnheddyf a Chyttundeb, y rhai ydynt ym mhob lle agos wedi ymrannu yn eu myſg eu hunain, yn gyſtadl ac yn erbyn y naill y llall: A thrwy y cyfryw effeithiau bendigedig o wîr Grefydd, y dygid perh o'r Nefoedd i lawr ar y Ddaiar, ac y gwir-gymhwyſid ein Henеidiau ni i'r Nefoedd, pan alwer ni ymmaith o'r Ddaiar hon, i'r Preſwylfeydd dedwyddol hynny uchod, lle nid oes dim arall ond Tangnheddyf a Sancteiddrwydd, a Chariad a Gorfoledd. Ac rhynged bôdd i Dduw fendithio 'r Athrawiaethau eglur byrrion hyn

er goleuo neb rhyw ſeddyliau â'r *Doethineb hwnnw oddiuchod*, yr hwn ſydd tel hyn *yn bûr ac yn heddychol*; yna y câf fwynhau fy amcan, ac achos mawr i fôd yn ddiolchgar. Ac fel y bo i'r Darllenydd uno a myfi yn y Dymuniadau hyn, Mi a gyſſylltais at hyn ymma Weddi am Râs, i arwain Buchedd Sanctaidd. Ac os gwna efe ond 'chwanegu diwŷd ymegniadau at aml a gwreſog Weddiau, ni bydd na'i Lafur ef na 'm un innau yn anfuddiol, trwy Râs a Bendith yr Holl-alluog Dduw, oddiwrth ba un y daw pob rhoddiad daionus a phob rhodd berffaith, i'r hwn y traddoder yr holl Anrhydedd a'r Gogoniant, yr awr hon ac yn dragywydd. *Amen.*

GWEDDI,

GVVEDDI,

Yn bennaf am gynnorthwy gras Duw, mewn trefn i arwain Buchedd *Sanctaidd.*

O Sancteiddiaf, a bŷth fendigedig Arglwydd Dduw, 'yr wy'n oftyngedig yn fy nhaflu fy hun ger dy fron, gan 'gydnabod a galaru am fy mhechodau, ac erfyn yn ddifrifol 'oy râs di a'th drugaredd trwy 'r Arglwydd Iefu, ein hunig Gy-'fryngwr a'n Dadleuwr. Yr wyf yn cyffeſſu, o Dduw, fy mod 'yn bechadur gwael, wedi fy halogi o'r Grôth: eithr er pan 'ddaethym i wneuthur defnydd o'm Rheſwm, mi a'm halo-'gais fy hun â llawer o droſſeddiadau gwirfodd ac echryſlon. 'Mi a elgeulufais yn refynol dy Watanaeth di, ac a ddianrhy-'deddais dy Enw, ac a fûm yn fawr-ddeffygiol yn y Dledſwy-'ddau hynny ſydd arnaf i ti fy Nuw, i'm Cymmydog, ac i'm Henaid fy hun; ac ni ddarfu i mi fyw yn y cyfryw fodd 'duwiol, cyfiawn, a chariadus, ag y dylaſwn: Eithr mi a 'aml weithredais yng ngwrthwyneb i'm Rheſwm a'm Cyd-'wybod fy hun, ac i Athrawiaethau eglur dy Air, ac yng 'ngwrthwyneb i'm Haddewidion a'm Haddunedau fy hun, 'o Ufudd-dod gwell. O Arglwydd, dyro i mi olwg eglur 'o'm pechodau, a'r cyfryw ddwys-ymſynniad o ddrygioni fy 'ffyrdd, fel y bo fy Nghalon yn wîr ddaroſtyngedig, ac yn 'ddrylliedig yn y goſtadwriaeth o honynt. Ac er mwyn yr 'Arglwydd Iefu, yr hwn a fu farw dros Bechaduriaid, bydd 'drugarog wrthif, O Dâd y Trugareddau, maddeu fy hôll 'Anwireddau, ac na chofier hwynt i'm herbyn er fy Nam-'nedigaeth, naill ai yn y Bŷd hwn, ai 'r hwn ſydd i ddyfod. 'Ac nid maddeuant yn unig yw 'r hyn yr wyf yn ei erfyn, eithr 'yr wyf yn dra difrifol yn attolwg i ti trwy dy lân Yſpryd,

'Sancteiddio

'Sanctaiddio o honot fi yng Nghorph ac Enaid, fel gan fod
'wedi fy ngwneuthur yn bûr ac yn Sanctaidd mewn Calon a
'Buchedd, y bo i mi dy wafnaethu di yn ddiwyd dros fy holl
'ddyddiau ar y Ddaiar, ac felly cael dy fwynhau di yn dra-
'gwyddol yn y Nefoedd. Yr wyf wedi fy nghwbl-orfod, mai
'fy nledfwydd i a'm dedwyddwch hefyd yw dy ofni a'th waf-
'naethu di, y Duw mawr gogoneddus, yr hwn a'm gwnae-
'thoft i ac a'm prynnaifl, ac hyd yn hyn yn rafufol a'm ced-
'waift. 'Rwy 'n cynabod mai dy Wafanaeth di yw'r gwir
'fraint, a bod dy holl Ddeddfau yn Sanctaidd, yn gyfiawn ac
'yn dda. Gan hynny 'rwy 'n deifyfu yn hollawl ymwrthod
'ac ymadel â phob ffordd ddrwg, ac yn fy nghyflwyno fy hun
'yn gwbl-oll, i'th wafnaethu a'th fodloni di mewn newydd-
'deb Buchedd. Eithr tydi, O Arglwydd, a wyddoft wendid
'a llygredigaeth fy Naturiaeth i; a pha fodd y darfu i mi drwy
'fy arferion drygionus, fy nghwneuthur fy hun yn fwy gogwy-
'ddedig i bechu, yn gyndynnach at yr hyn fydd dda. O ne-
'wid ti fy Naturiaeth i yn hollawl drwy dy Ras, fel y cashawyf
'ac y flieiddiwyf bob drygioni, ac fel y cymmerwyt ddifyr-
'rwch yn flyrdd Duwioldeb a Sancteiddrwydd. Na letteued
'un trachwant yn fy enaid i hebci farwolaethu: eithr bydded
'i ti fy mhuro i a'm glanhau oddiwrth Falchder a Chyf ydd-
'dod, oddiwrth Genfigen a Digafedd, ac oddiwrth bob ferch
'a deifyfiadau ammhur ac anniwair, a chyfoethoga fi â holl
'Radau dy Yfp yd Sanctaidd. Dyro i mi y cyfryw eglur wy-
'bodaeth o'th anfeidrol ddaioni, ac o'th holl berfeithrwydd
'gogoneddus, fel y gallwyf yn oftyngedig dy ryfeddu a'th a-
'ddoli di bŷth, a'th garu di a'm holl Galon ac a'm holl Enaid,
'a glynu wrthit megis fy unig gyfran, gan gyfrif dy flafor di o
'flaen holl fwyniant y Byd hwn. Cynnorthwya fi yn oeftad
'i gadarn-ymddiried ynot ti, ac i ado fy holl ewegleuau yn gwbl
'i'th ddoeth a'th rafufol Ragluniaeth di, gan roi i fynu fy
'Ewyllys fy hun yn llwyr-gwbl i'th fanctaidd Ewyllys di ym
'mhob peth. Gwna fi yn wîr ddiolchgar am dy holl druga-
'reddau, ac yn ddioddefgar dan flinderau. Drwy dy addyfg
'di, dyfg i mi fôd yn fodlon ym mhob Helynt a Chyflwr. Ac
'o Dduw daionus, na âd i mi yn y rhwyftrau a'r peryglon
'mwyaf, anymddiried yn dy drugareddau di, na chymmeryd
'neb rhyw ffordd anghyfreithlon i'm gwared fy hun. 'Rwy
'yn erfyn gennit fy Mara beunyddiol, ac yn arrolwg i ti roi
'i mi Galon gwbl-fodlon i ymddigonoli ar yr hyn a welych
'di yn gymmhwyfaf i mi. Dod i mi y cyfryw Yfpryd o Ddiw-

'ioldeb

'ioldeb a Defoſiwn, ſel y cymmerwyf ddiddanwch mawr yn 'dy Addoliad a'th Wafanaeth, yn gyhoedd ac yn ddirgel. 'Llanw fi â'r cyfryw gariad i'm Hiachawdwr Bendigedig, ac 'â'r cyfryw ddiolchgarwch am ei gariad ef yn marw drosBecha-'duriaid, ſel y bo hyfrydach gennif fyned i'r Cymmun Sanc-'taidd, er daioni i'm Henaid, nag i'r Wledd werthfawroccaf 'a wneler i'm Corph.

'Cymorth fi, o Dduw, i ddangos fy nghariad at dy fendi-'gedig ddaioni di dy hun, drwy ddwyn gwîr gariad ac ewy-'llys da i'm Cymmydogion. Gwna fi yn hywedd ac yn ufudd 'i'm Llywiawdwŷr yn yr Eglwys a'r Deyrnas, heddychol ac 'yn addfwyn tuag at bob Dyn, gan wneuthur â hwynt mor 'gyfiawn ac mor uniawn, ag yr ydwyf finnau fy hun yn 'chwennych gwneuthur â mi. Gwna fi yn dyner ac yn doſ-'turiol, ac yn barod i wneuthur i eraill bob daioni a allwyf; 'a bydded i'th Râs di fy nghymmorth i faddeu yn rhwydd i'r 'rhai a wnânt ddrwg i mi, megis ag yr ydwyf finnau fy hun 'yn gobeithio am drugaredd a maddeuant oddiwrthit ti, fy 'Nuw. A chynnorthwya fi yn oeſtad i fyw yn ſobr ac yn 'gymhedrol, yn bur ac yn ddiwair o Galon a Buchedd; ac 'mewn mawr addfwynder a goſtyngeiddrwydd gan ymſyn-'nied a'm hannheilyngdod a'm haml a'm hamryw ammher-'ffeithrwydd fy hun.

'O Arglwydd, caniattâ i'm Calon i fod wedi ei llenwi â 'hiraeth ac â dymuniadau difrifol ar ôl y Rhadau hynny yr wy 'fi'r awr hon â'm gwefuſau yn gweddio am danynt: a chyn-'northwya fi i ddangos fy niragrithrwydd, drwy wneuthur 'beunydd fy ngorau ar gynnyddu ym mhob Grâs a daioni, ac 'mewn perffaith Sancteiddrwydd yn dy Ofn di. Gwna fi 'n 'wiliadwrus droſof fy hun, a thros fy holl ffyrdd, fel y gall-'wyf yn ofalus ochel pob achlyſur o bechod, a cheryddu ei 'gynhyrfiadau cyntaf yn ſy Nghalon fy hun. Cadw fi yn 'oeſtad mewn dwys ymſynnied o'th Breſennoldeb, fel y ga-'llwyf rodio yn oſtyngedig gyd-a thydi fy Nuw, a rhyngu 'bodd i ti gan wneuthur yn dda. Diddyfna fy Nghalon o-'ddiwrth bob peth ymma iſod, a pharottoa fi i'm hymydaw-'iad oddiymma, i Fyd gwell. Cynnorthwya fi yn oeſtad i 'fyw yn y cyfryw fodd crefyddol a Sanctaidd, ag y bo mwyaf 'cyſſurus i mi yn amſer Marwolaeth a barn. Cadarnhâ fy 'Nghrediniaeth o'r Addewidion gwerthfawr, a'r Bygythion 'ofnadwy yr Efengyl, a bydded i'r Grediniaeth hon fy rheoli 'a'm llywodraethu i yn fy holl Ymarweddiad. O na bydded

'i mi fyth fod yn euog o gymmaint o ynfydrwydd ac am-
'mhwyll, a cholli y tragwyddol a'r anrhaethol orfoledd yn
'y Nefoedd, a'm taflu fy hun i dragwyddol boenau Uffern,
'er mwyn neb rhyw fudd neu ddifyrrwch pechod, yr hwn
'mewn moment a ddertydd. Cadw di bŷth, o Arglwydd,
'drwy dy Yſpryd ſanctaidd, y cyfryw newŷdd a bywiol ym-
'ſynnied ar fy meddwl i o Reſymolrwydd Crefydd, ac o
'fowr-ddrwg ac ynfydrwydd pob pechod a drygioni, fel na
'bo i'r un o brofedigaethau Satan, yr un a hudoliaethau y
'Bŷd na'r Cnawd, fy rhwyſtro i yn fy Nledſwydd, na'm tynnu
'i un pechod gwybyddus: eithr bydded i ti yn oeſtad fy
'nghrythau a'm cynnorthwyo i drwy dy Râs, a'm cyfarwyddo
'i drwy dy Gyngor, hyd oni ddygi di fi attat dy hun i Ogo-
'niant.

'Ac nid ydwyf yn gweddio droſof fy hun yn unig, ond
'dros holl Ddynol ryw, gan attolygu i ti anfon Goleuni dy
'Efengyl i holl dywyll Gonglau y Ddaiar, a chaniatâ, fod
'i'r rhai ſydd yn ei fwynhâu, rodio ym mhob ufudd-dod ſan-
'ctaidd i'r unrhyw. Bydd drugarog wrth y Teyrnaſoedd hyn,
'maddeu ein pechodau, a diwygia ni oddiwrth ynt. Gwnia
'i ſynu ein holl rwygiadau ni, parhaëd dy drugareddau tuag-
'attom, a gwna ni yn wîr-ddiolchgar am danynt. Bendithia
'Fawrhydi y Brenin, gyda'r Brenhinol Deulu, a'r holl rai
'ſydd mewn awdurdod tano, a chaniattâ i mi, ac i'w holl
'Ddeiliaid ef, râs i arwain Buchedduau llonydd a heddychol,
'ym mhob Duwioldeb a goneſtrwydd. Bendithia Weinido-
'gion dy ſanctaidd Air a'th Sacramentau, a gwna hwynt yn
'dra-diwyd ac yn dra-llwyddiannus yn eu Llafur oll; cyn-
'northwya ni i ddwyn y cyfryw Ffrwyth o'r Bendithion yr ydym
'ni yn eu mwynhâu, fel y bo i'th Efengyl di a'i Hordinhadau
'barhâu i ni, ac i'r Cenedlaethau ar ein hôl ni. Dangos dru-
'garedd i'r rhai oll ſydd yn orthrymmedig, pa un bynnag ai
'yng Nghorph neu Enaid, a chadw y rhai ſydd yn ymdaith ar
'eu Hachoſion cyfreithlon ar Fôr neu Dîr. Bendithia fy holl
'Geraint a'm Cyfneſaf, yn bendifaddeu, y rhai oll ſydd yn
'perthyn i'r Teulu hwn, a chynnorthwya ni oll i fyw yn dy
'ofn a'th gariad ti ein Duw, ac mewn heddwch a chariad y
'naill tuag-at y llall. Bydded dy tendith a'th ddaionus bre-
'ſennoldeb gyda mi dy Wâs annheilwng, yr awr hon a phob
'amſer, yn fy ngorweddiad a'm cyfodiad, yn fy mynediad
'allan a'm dyfodiad i mewn, bydd di yn Dduw ac yn Arwei-
'nydd i mi, ie hyd Farwolaeth, ac yn rhan dragwyddol i mi,
'pan na byddo amſer mwy.

A

'A bydded yn gymmeradwy gennit ti, o Dduw, ſy niſſuant 'ddymuniadau, i fendithio ac i foli dy Enw bendigedig, am 'dy holl Drugareddau a'th Ffafor i mi fy hun, ac i bob Dŷn. '*Rwy 'n dy fendithio di am fy Rheiwm a'm Synhwyrau, 'ſy Iechyd a'm Cryfder, Ymborth a Dillad, ac am holl Gyſ-'ſurau y Bywyd hwn; eithr uwchlaw pob peth, 'rwy 'n dy foliannu di am dy anfeidrol gariad ym Mhrynedigaeth y Byd drwy ein Harglwydd Ieſu Griſt, am holl foddion Gràs, ac am obaith Gogoniant. Ac mi a attolygaf i ti, roddi i mi y cyfryw ddwys ac iawn ymſyniad ar dy holl Drugareddau. fel y bo fy Nghalon i yn ddiſſuant yn ddiolchgar, ac y mynegwyf dy Foliant, nid a'm gwefuſau yn unig, ond yn fy muchedd, drwy ymroddi i'th waſanaeth, a thrwy rodio ger dy fron mewn Sanctteiddrwydd ac Uniondeb holl ddyddiau fy Mywyd, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd,* yn ſanctteiddiaf Enw a Geiriau pa un, yr wy yn parhâu i weddïo megis ag y dyſgodd efe i ni yn ei Efengyl, gan ddywedyd,

Ein Tad yr hwn wyt yn y Nefoedd, &c.

Rhad ein Harglwydd Ieſu Griſt, a ſerch Duw, a chymdeithas yr Yſpryd glan, a fo gyda myſi yr awr hon ac yn dragywydd. Amen.

TERFYN.

Rhybudd.

Y Mae rhai o Lyfrau *Gweddi Cyffredin* a brintiwyd yn *Rhydychen*, heb eu gwerthu etto; o's bydd gan neb ewyllys i'r un o honynt, fe a eill eu cael 'nhwy ar werth, (ond gyrru am danynt,) gan Mr. *Hall*, Printiwr yn *Rhydychen*.